







GWILYM HIRAETHOG.  
*(Oddarlon gan John Thomas.)*



A black and white photograph of a rural landscape. In the foreground, several sheep are grazing on a rocky, uneven terrain. Beyond them, the land rises into rolling hills and mountains under a hazy sky.

# Gwaith Gwilym Biraethog

Ab Owen Llunwchlyn.

AETHRAFFWYD I AS OWEN GAN R. E. JONES A'I FRODYN,  
CONWY.

## Rhagymadrodd.



ANWYD William Rees (*Gwilym Hirachog*) Tach. 8, 1802, yn Chwibren, arnaethdy ger glan afon Aled, tua dwy filldir o bentref Llansannan. Yr oedd ei dad, Dafydd Rees, y Chwibren, yn wr o deinioladau dwys a thyner; yr oedd ei fam, gynt Ann Williams, Cefn y Florest, gerllaw, yn ddiysgog a hyderus. Ceir nodweddion y ddau, tynerwch y naill a chryfder y llall, yn y mab bynaf, Henry Rees, y pregethwr seraffaidd, ac yn y mab ieuangaf, Gwilym Hirachog aml ei ddoniau.

Bro Tudur Aled a Gruffydd Hiraethog a Sion Tudur a William Salisbury, a llawer llenor atall, yw'r fro; ac yr oedd yr awen yn aros ynndi. Cafodd mab y ffarmwr athrawon a llyfrau. Yn athrawon cafodd fab i Edward Jones, Maes y Plwm, a Robert ap Dafydd o'r Gilfach Lwyd; yn llyfrau cafodd ychydig o gyfrolau meddylgar. Pan yn llanc dechresodd brydyddu. Tra'n gwthio ffridd,—gwaith caled, ond gweithiwr caled oedd Gwilym Hirachog—gwnaeth gywydd ar frwydr Trafalgar at Eisteddfod Aberhonddu yn 1828. Cafodd y wobr, a daeth yn hawdd ac esmwyth i fyng llenorion gores Cymru. Yr oedd yn gawraidd ei feddwl, ond yn ostyngedig fel plentyn; gŵr distaw oedd, ond danghosai ei wén serchog fod yr enaid yn llawn cydymdeimlad.

Ymbriododd yn ieuanc ag Ann Edwards, Waun, Nantglyn, yr hon a fu yn gymorth i'w wneyd "yn dyledwydd yn ei dylwyth, yn llwyddiannus yn ei weinidogaeth, ac yn anwyl gan ei holl frodwr." Oherwydd ei medr a'i darbodaeth hi y gwelodd Gwilym Hiraethog lwybr iddo adael Llansannan, i ymroddi i bregethu yr efengyl.

Yr oedd wedi teimlo'n ddwys dan ddylanwad cewri'r palpus yn yr adeg honno, a Williams o'r Wern oedd ei hoff bregethwr. Dechreuodd ei waith crefyddol fel athraw plant yr Ysgol Sul; pan ddechreuoedd bregethu, cafodd glust y wiad ar unwaith oherwydd poblogrwydd ei frawd hynaf, ac yna oherwydd amrywiaeth swyn ei genadwri ei hun, mewn pregeth neu ddarllith.

Yn 1828 cafodd y wobr gyntaf am gywydd ar "Gantre'r Gwaelod," ac ail wobr am gywydd ar "Ymdrech Buddug," yn Eisteddfod Dinbych. Ymhene dwy neu daир blynedd wedyn gadawodd ef a'i wraig a'i dri phlentyn Llansannan, ac aeth i Fostyn yn weinidog. Pan urddwyd ef, yn Ebrill 1832, yr oedd yno yn y cyfarfod, ymysg ereilli, Williams o'r Wern, a Michael Jones o'r Bala, a Henry Rees.

Tra ym Mostyn ymroddodd bron yn hollol i'w waith, ac ychydig ganodd. Y mae "Cwymp Babilon" yn dangos nodwedd ei feddwl yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 1837 symudodd i Ddinbych. Yno daeth i gyflawnder ei nerth—yn dywysog ymysg pregethwyr, yn flaenor gyda phob achos da. Gwnaeth waith amhrisiadwy dros lenyddiaeth

## Rhagymadrodd. 5

Cymru, yn enwedig trwy ddeftro meddyliau pobl ieuainc. Nid oedd ei ysgrifbin yn llonydd ychwaith; ymyst cyfrolau creill, cyhoeddodd ei draethawd "Crefydd Naturiol a Datguddiedig," a Chofiant Williams y Wern.

Vim Mai 1843, symudodd i Lerpwl. Yno ymgymroedd â thasg gynhviasid gan wyr grymus cyt; ond ni fuasai llwyddiant hyd yn hyn. Pan gyhoeddwyd rhifyn cyntaf *Vr Amserau*, Awst 23, 1843, dan olygiaeth Gwilym Hiraethog, teimloedd pawb fod gwerin Cymru o'r diwedd wedi cael llae. Ond trwy ymdrech galed y bu'r *Amserau* byw; yr oedd ei gyhoeddwr gwladgarol yn colli arian arno, ac yr oedd y golygydd yn rhoi iddo "ffrwyth yr oriau a latratesid oddiar gwsg y nos." Pan oedd goleu'r *Amserau* ar ddifflod, dechreuodd "Llythyrau'r Hen Ffarmwr" ymddangos ymddydd; ac o hynny allan ni fu Cymru'n foddlon ar fod heb bapur newydd. A thrwy'r dyddiau cythryblus,—dyddiau Mazzini a Garibaldi a Kossoth, chwyldroadau'r Cyfandir, a diddymiad treth yr yd, a defifroad gwerin Cymru,—bu'r *Amserau* yn oleuni ac yn arweiniad. A daeth Gwilym Hiraethog trwy'r wlad fel darlithydd, yn ei tym ysgubol; danghosodd i'w bobl ogoniant emynnau Pant y Celyn, rhyfeddodau natur, a'r egwyddorion mawrion oedd yn dynchwelyd gorseddau Ewrob yn chwyldroadau 1848.

Felly, weithiau dan heulwen ac weithiau dan gwmwl, tyfodd yn allu. Yr oedd ei bresenoldeb fel presenoldeb llu. Cymylau duaf ei fywyd oedd colli ei ferch yn Mostyn, a mab

yn Lerpwl, a gwraig, a dwy ferch "bron ar derbyn eitha'r daith." Ac efo'n fab pedwar ugein-milwydd, dechreuodd ei gorff hardd a chadarn adfeilio. A phan roddwyd ef i huno yn Lerpwl, Tachwedd 3ydd, 1883, teimloedd Cymru ei bod wedi colli gwašanaeth un o'i chymhwynaswyr pennaf.

Feallai fod ereill wedi rhagori ar Wilym Hiraethog mewn cyfariadau neillduol,—yr oedd Henry Rees yn bregethwr mwy, ac Eben Fardd yn fardd mwy,—ond gellir dweyd mai efo yw'r mwyaf amryddawn o holl wyr mawr Cymru. Y pulpud, yr areithfa, y cylchgrawn, y papur newydd, y nofel, gwleidyddiaeth a llenyddiaeth Cymru,—ni fuasai yr un o honynnt y peth ydynt heddyw onibai am Hiraethog.

Cyhoeddwyd cofiant iddo, dan olygiaeth Scorpion a Dewi Ogwen, gan Mr. Hughes, Dolgellan, yn 1893. Y mae ei weithiau ymhob flur,—mewn cyfnodolion a newyddiaduron, ac mewn cyfrolau niferus, wedi eu cyhoeddi mewn amrywiol leodd, ond yn bennaf yn swyddfa Mr. Gee, yn Ninbych. Yn y swyddfa honno, a fu ac y sydd yn gymaint bendith i Gymru, y cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r byn sydd yn y gyfrol hon.

OWEN M. EDWARDS.

*Llanuwchllyn,  
Mehefin 21, 1911.*

## Cynhwysiad.

	Tudal.		Tudal.
Adgoedion Melyd ac Iesu- enctid .....	9	Awdi Heddwch.—	
Gwennol gyntaf y tymor ..	16	i. Tysion oes teyrnasiad Heodd a Chariad ar y ddaeas; dan lais mwyng o'r ddaear yn uno yng nghydgan meibion Iesu; Satan yn dywed y llais, yn chwilio am y ddaear, ac yw ei chael; dadgan ei gyllau i'r angylion coll; dwyu Rhyfel ar y ddaear 65	
Canoladau Iesu-enctid ..	19	ii. Oes Rhyfel. Dig Cain a hela Nimrod; diffeisio rhyfel; ymladd a'm dir neu wrtaig; y frwydr, dynesu, sain yr udgoem, y saeth- yddion, rhuthr y gwyg mairch, llied cnaudwy'r clodd, y gyffafau, manteil y nos; Mair ar faes y gad, dioddef y clwyfedig. Hen wledydd shyfelog,— yr Aifft, Asyria, Chaldea, Persia, Groeg, Rhulain; Rhyfeliwyr y Groes. Dyfais ya rhoiwallau llais i ryfel. Yr Awens ya dille o swydd shyfelog. Waterloo. Cost rhyfel. 79	
BRAWYD TRAFALGAR—		iii. Proffwyd i hedd. Cân Dafydd. Selyf a chân Easay. Tywysoog Hedd- wech yo dod yng nghyl- lawnder yr amser; cyhoeddi heddwech ar y ddaeas; y llaw a'r ych, yr oen a'r blaidd. Hen hoffwyr rhuddid.—Wicliff ac Erasmus, y Morfaid a'r Gwynnyr, Milwr ya Bistedd-fodwr. Tro'r cleddytau'n sychau. Teyrnasiad y Messiah mewn hedd..... 96	
Napoleon a Nelson.....	25		
Brawyde Aboukir .....	26		
Hysnt y Llynges .....	27		
Acabeth Nelson ..	29		
Brawyde Trafalgar .....	30		
Cwrymp Nelson ..	31		
Galar Prydain .....	33		
Iesu a wylodd .....	34		
Rhaid blinderus yn ymddyng goifflwysia .....	35		
Yn Montyn a Disbych ..	37		
Cwymys Babilon .....	39		
Eangeler y Greadigaeth.—			
i. Syniadau Athronydd..	42		
ii. Syniadau'r Beibl ....	45		
Bedd Williams o'r Wern ..	47		
Yng nghadair Prifardd ..	49		
Ar ymwelliad i Gymru ..	50		
R. ab Gwilym Ddu.....	53		
Morgan Hwael ..	57		
Thomas Gee .....	59		
Richard Jones, Lwyngweil 60			
Emynnau.—			
i. Cariad Crist .....	61		
ii. Hawldgarwch Crist ..	62		
iii. Holltau'r Graig .....	63		
Pwy, pwy yw Ef? ..	63		

# Y Darluniau.

GWILYM HIR AETHOS*	Hydreddarion.	
Llaesau,*	I wyllebu tbd.	9
	"Un far byw ar llaesau hyfryd. Afon leon Aled fech."	
Trafalgar	"Tros wylleb math llais y M."	25
Breonna Llaesauan*	"Awn i radio hyfryd frysian Haw gynheda posibol fy nad."	33
Breuddwyd Adgoedd*	"Nid oes heddyw ond yr adgoedd Am y pentan hynny gron."	49
Heddwch	(O'r darlun gan Syr Edwia Landseer). "Brauddeydion hirion o heddw, Ac o fwyntiant cyflannodd."	57
Rheithr Balaciava	(O'r cerflun gan W. Goscombe John.) "Coddiant yn addig Ewro cymru garsus."	73
Rhyfel	(O'r darlun gan Syr Edwin Landseer.) "O glywch allostus, wylodol iofus Ei gloryfediogion, fewnion miferau."	84
Nwyd y Meith	(O'r cerflun gan W. Goscombe John.) "Maliwrion mil o arwyd."	88
Curo'r Cleddyfan'n Sychau	A. B. Elias. "Yn wylsiat ar ei sinolos.	97

\* O ddarleniadau gan y diweddar John Thomas



LLANBANNAN.

"Sibewd rhediad afor Aled  
Tros y cerrig llyfnion mân."



## HIRAETHOG.

### ADGOFION MEBYD AC IEUENCTID.

**A**WEN ! telyn fwyn fy ieuencid,  
Ti felusaist lawer awr,  
Feavent hebot ti yn osid  
Prudd, ac annifyrrwch mawr :  
Chwarae ar dy dannau mwynions,  
A'm difyrrai pan yn syn ;  
Gyrrodd fyrrd o ddrwg ysbrydion  
Ymaith lawer gwaith cyn hyn.  
  
Sibrwd rhediad afon Aled,  
Tros y cerrig llyfniwn mân,  
A dy demtiai wrth ei glywed,  
Lawer gwaith i ellio cân :  
Tyner fysedd yr awelon,  
Pan chwareuenn ar y dail,  
A'th emynnent dithau n union  
I wneyd pennill bob yn ail.  
  
Pan y byddai blinder llwythog,  
Neu ryw nychdod-dan y fron,  
Awel iachus hen Hiraethog,  
A adferai iechyd llon :  
Llawer hafddydd ar ei fryniau,  
Dreuliais yn dy gwmai gynt,  
Lie ni safal ein gofidiau  
Mwy na'r us o flaen y gwynt.

## G. Hiraethog.

Mae'm dychymyg yn delweddu  
 Hen lancerchau'r funud hon,  
 Buost, Awen fwyn, yn tynnu  
 Llawer pigyn o fy mron ;  
 Wrth adgofio hen linellau,  
 Mae myfyrdod yn fy nwyn  
 Eto'n ol i'r hyfryd fannau  
 Cefais bob rhyw linell fwyn.

Nid oes heddyw ond yr adgof  
 Am y pethau hynny gynt—  
 Adgof swn y firwd risialog,  
 Si y dail wrth chwarae a'r gwynt :  
 Adgof avel iach y mynydd,  
 Adgof bref y defaid man,  
 Adgof hen deimladau dedwydd—  
 Adgof ydyw'r oll o'm can.

Adgof sydd yn enbyn hiraeth—  
 Hiraeth ! d'wedwch, pa beth yw ?  
 Math o ddelw, neu ddrychiolaeth ?  
 Nage, mae yn deimlad byw !  
 Drach ei gefn, a thiros ei ysgwydd,  
 Syllu mae ar bethau fu,  
 Heb ofalu beth a ddigwydd,  
 Beth a ddaw, neu beth y sy.

Chwilia holl gillachau'r galon,  
 Am ad-got o bethau gynt,  
 Cwyd hwy i fyny fel ysbrydion,  
 O'r dyfnderau ar eu hynt ;  
 Chwyddaa'r fynwes gan deimladau  
 Dryllisog iawn, a llwythog fydd,  
 Eto'r ocheneiddiau a'r dagrâu  
 Roddant ryw hyfrydwch prudd.

Un fu'n chwarae'n mmoreu'i fywyd

Ar Hiraethog, fynydd iach,

Un fu'n byw ar lannau hyfryd

Afon loew Aled iach—

Ewch â hwnnw o'i gynhefin,

I ryw Seisnig, fyglyd dre'—

Os oes dan yr awyr undyn

Edwyn hiraeth—dyna fe !

Hiraeth a'm dych'mygol huda

Dros y môr a thros y wlad,

I roi tro i Chwibren Isa'

Hen dreftadaeth teulu 'nhad :

Awn i'r hen ystafell honno

Lle tarawai'r galon hon

Guriad cyntaf bywyd yno,

Yn y fynwes dan fy mron.

Awn i rodio hyfryd fryniau

Hen gynhefin praidol fy nhad,

Lle bu Tango'r ci a minnau,

'R ddau ddedwyddaf yn y wlad :

Mi ni wyddwn, mwy na Thango,

Am ofidiau bywyd gan,

On' bai'r ddafad ungorh honno,

Buasem berflaith ddedwydd ddau.

Y mae crybwyllog Tango 'n peri

Imi gofio llawer ci

Enwog arall, allwn enwi,

Yn eu hoes, adwaenwn i :—

Cwrt, y Wern, a Mot, yr Acrâu,

Bute, hynafgi Sion y go'—

Hedger fawr y Priddbwll, yntan,

Heliwr cadarn ydoedd o,

Keeper, Chwibren Isaf hefyd,  
 Gi cyfrwysddrwg, mawr ei ddawn,  
 Dygodd hwnnw yn ei fywyd  
     Gig a bara, lawer iawn ;  
 Hefyd Toss, cydymaith Tango,\*  
     Ein defeidgi ffyddlon ni,  
 Credu'r wyl na bu yn rhodio  
     Daear ddiniweitiach ci.  
 Catch, o Ddeunant, filgi hynod,  
     Ystwyth, ysgafn iawn ei droed,  
 Llawer iawn o 'sgyfarnogod,  
     Ddaliai 'r helgi hwnnw 'rioed :  
 Gallwn roddi rhestr o enwan  
     Cwn gyfrifid gynt yn gall,  
 Ac 'r oedd, meddid, ragoriaethau  
     Yn perthynu i'r naill a'r llall.  
 Maddeu, fy narllenyydd synllyd,  
     Hyn o wendid ; dal mewni co'  
 Mai adgofon dyddiau mebyd  
     Yw sy ahestyn hyn o dro :  
 Ffrol blentynaidd ydyw hiraeth ;  
     A phan gafla ryddid llawn,  
 Tywalt allan wna yn helaeth  
     Ryw ffolineb rhyfedd iawn.  
 Hoff yw ganddo són a syltu  
     Ar hen bethau dyddian fu ;  
 Enwasu cwn y dyddiau hynny,  
     'N gysegredig ganddo sy :  
 Ef ar reswm byth ni wrendy,  
     Teimlad yw yr unig iaith

\*Yr oedd teulu y bardd wedi symud o Chwibren Isa', Pr Rhydloew, yn syddiau y cwm a goflein yma.

Fedr ddeall a llefaru,  
Nid oes arno reol chwaith.

Dyna ryw fras ebargoifiad  
Am Lansannan wen ei gwawr,  
Nid oes yno gi na dafad  
A adwaenwn i yn awr ;  
Ambell un o'm hen gymdeithion  
A geir yno, trwm yw'r co',  
A tho arall o drigolion  
Gyfanneddant yn y fro.

Hunodd Tango gyda'i dadau,  
Mewn bodolaeth mwyl ynid yw ;  
A'r hen ddafad ungorn, hithau,  
Nid yw chwaith ar dir y byw.  
Mae y llwybrau gynt a rodiwn  
Wedi llwyr anghofio 'm troed,  
Ond mae'r bryniau lle chwareuwn,  
Eto'n aros fel erioed.

Fyth y defaid mân a borant  
Ar Hiraethog, fel o'r blaen,  
Fyth y grug a'r brwyn a dyfant  
Ar y bryn ac ar y waen ;  
Fyth e dreigla afon Aled,  
Gan ddolennu megys gynt,  
Fyth mae swn y dail i'w glywed  
Uwch ei phen wrth chwareae a'r gwynt.

Minnau ddygwyd, megis Dafydd,  
O fugeilio a'r defaid mân,  
I fugeilio ar Sion fynydd,  
Braidd yr Ion—ei eglwys lân :  
Mi gyfarfum, gallaf gwyno,  
Ambell ddiriad ddyn di ras,

Barai imi fynych gofio  
     Am y ddefafad nwgorn gas.  
 Ni feddyliwn fod bryd hynny  
     Gan Ragluniadeth dloeth y nen,  
 Law mewn amgylchiadau felly,  
     A bwriadau i'w dwyn i ben—  
 Gosod croessau ysgeifn hynod,  
     Ar fy ysgwydd fechan, wan,  
 Er fy mharotoi i gyfarfod  
     Croessau trymach yn y man.  
 Hi a drefnai 'r groes a'r adfyd,  
     Un yn llai, a'r llall yn fwy ;  
 Trefnai waredigiaeth hefyd,  
     Gyferbyniol iddynt hwy :  
 Os y ddefafad barai flinder,  
     Poen a phryder fore a hwyr,  
 Trefnid Tango ar ei chyfer,  
     Rhag fy nigalonni 'n llwyr.  
 Er y diwrnod y gadewais  
     Lannau Aled, hyfryd fro,  
 Llawer blinwyd chwierw brofais,  
     Yn y byd o dro i dro ;  
 Gwell yw tynnu lenni trostynt,  
     Gwell yw peidio i go' eu dwyn,  
 Ond yn unig un o honynt—  
     Colli fy Angharad\* fwyn.  
 Fy ngholomen fwyn ddiniwed,  
     Hoffder Ilygaid mam a thad,  
 Ergyd trwm in' oedd ei cholli,  
     Hir fu'n hiraeth ei barhad ;

\* Geneth fechan olwech mlwydd oed a gladdasom yn Heol Mostyn.

Heilltio ddagrâu tros ein gruddiau,  
A dreiglasant lawer tro,  
Nid aeth ugain o flynyddau,  
Ag Angharad fach o'n co'.

Buasai 'n deilwng ferch i Moses,  
Yn llarieidd-dra 'i thymer iwyn,  
Hedai 'i gwedd a'i llygad serches  
Bawb i'w charu, gan eu swyn ;  
Oedd ry dyner i anialwch  
Oer a garw 'n daear ni,  
Ac i wlad o ddiogelwch,  
Angel ddaeth, a chipiodd hi.

Bellach wyf ar oriwared  
Gyrlia bywyd is y nen,  
Byddaf cyn bo hir yn myned  
Ati i orffwys dan y llen ;  
Tad a mam, a brawd a phlentyn,  
Aent o'm blaen i'r distaw dir,  
Minnau'n brysur sy'n eu dilyn—  
Byddaf yno cyn bo hir !

## GWENNOL GYNTAF Y TYMOR.

**23** ENNOL twyn, ti ddaethost eto,  
 I'n dwyn ar go' fod haf ar wawrio,  
 Wedi bod yn hir ymdeithio,  
 Croeso, croeso iti :  
 Nid oes unrhyw berchen aden  
 Fwy cariadus na'r wenfolen,  
 Pawb o'th weled sydd yn llawen :  
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

Ha ! mi wela'th fod yn chwilio  
 Am dy nyth o dan ein bondo,  
 Y mae hwranw wedi syrthio,  
 Wennol, coelia di ;  
 Nid myf ya wir a'i tynnodd,  
 Gwynt a gwiaw a gaea' a'i curodd,  
 Yntau o ddarn i ddarn a gwympodd:  
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

Wennol dirion, paid a digio,  
 Gelli wneyd un newydd eto ;  
 A phe gallwn, gwmawn dy helpio—  
 Aros gyda ni :  
 Casglaf glai, cei dithau 'i weithio,  
 A chymeraf ofal trosto,  
 Rhag i'r 'deryn to ddod iddo :  
 Ebe'r wennol—Twi, twi, twi.

P'le gadewaist, wennol heini',  
 Dy gymdeithion, dorf aneiri',  
 Oedd y llynedd yn ein llonni  
 Yma gyda thi ?

A fu'r oll o honyst feirw,  
 A' th adael di'n amddifad weddw ?  
 Byddai hynny 'n chwedl arw :  
     Ebc'r wennol—Twi, twi, twi.

Wennol bach, pa ham diengi  
 Draw oddiwrthyf ? paid ag ofni ;  
 Aros, bydd yn gyfaill imi—  
     'Rwy'n dy garu di.  
 Credu 'r wyl fod gennyt galon  
 Bur, ddiniwed, gywir, ffyddlon—  
 Peth anfynych ymhliith dynion :  
     Ebc'r wennol—Twi, twi, twi.

Llawer blinder chwerw brofais,  
 Er y tro o'r blaen y'th welais,  
 Wennol fwyn, a llawer gwynais—  
     P'odd ymdrewaist ti ?  
 A fyddwch chwi, wenoliaid, weithiau  
 Yn cyfarfod a blinderau,  
 Nes troi'ch twi, twi, twi, 'n gwytannau ?  
     Ebc'r wennol—Twi, twi, twi.

Mi ddymunais, wennol lawen,  
 Ganwaith feddu ar dy aden,  
 I allu hedeg yn y wybren  
     Uwch y byd a'i gri :  
 Ymryddhau oddiwrth helbulon  
 Bywyd dynol, a'i ofalon,  
 Ac fel tithau, 'n iach fy nghalon,  
     Canu uwch eu pen—Twi, twi.

Mae'th ddyfodiad, addfwyn wennol,  
 I ni'n dysgu gwersi buddiol,  
 Ar bob tymor yn olynol,  
     Yr ymweli a ni.

Wyt yn adwaen dy dymborau,  
 Ac yn cadw dy amserau—  
 "Cym'rwech rybeidd, ganewch fel fionau."  
 Ydyw'r llais ymhob twi, twi!

Dyna gamp a ddysgi eto—  
 Cadw 'th wisg yn lân a chryno,  
 A thithau 'n trin y clai a'i ddwbs,  
 Wrth wneyd dy waith.  
 Hoffwn ianau ddysgu honno—  
 Trin y byd, a myned trwyddo,  
 Heb halogi 'm gwisgoedî yn ddo,  
 Na rhoi arno 'm calon chwaith.



## CANIADAU IEUENCTID.

**N**MAE nifer o'r Caniadau yn gynhyrchion blynnyddoedd boreuol fy mywyd; a heimlwn megys pe yn ad-fyw y tymor hwnnw o'm boes wrth eu hadolygu a'u trefnu i'r agravawsg. Cofiw'n gyda bryd hiraethlawn am yr hen lanerchau ar y meusydd, ar lan Afon Aled, ac ar Fynydd Hiraethog, lle y cyfansoddwn y naill ddernyn a'r llall; ac am yr hyfrydwch bachgenaid a brofwn pan ddigwyddai i mi gael ambell i Unell wrth fy modd; y rhai a dybiwn i, druan, y prydiau hynny, yn gyfryw ag y buasai Milton ei han yn falch o honynyt. Y mae y llinellau hynny megis wedi cysegru y cyfryw fannau i'w coño gennyl gyda hoffder; nid yn wir ar gyfrif unrhyw ragoroldeb a ymddengys i mi yn awr yn y llinellau en hunain, ond yn unig ar gyfrif yr adol am y boddhad a'r hyfrydwch a deimlwn ar yr achlysuron crybwyledig. Hoffai Solomon awelon a golygfeydd Senir, a Hermon, ac Amana; a'r bardd Groegaidl ddyfroedd ei Helicon, ac awyr ei Barnasus: a dadganai y naill a'r llall eu serch at y mynydd a'r afon lle y bnaest yn myfyrio ac yn cyfansoddi ar en glannau ac ar hyd en llechweddau. Pa ham, gan hynny, y gwarafunir i'r bardd Cymreig draethu ei hoffder at yr afonig honno, a'r mynydd hwnnw, yng nghymdeithas y rhai y treuliasai orian difyrraf a mclusaf ei fywyd? Iddo ef,—

"Ni roiñ awen gyfeinenog  
O drwm Parnalus gwlad Roeg"

Ni cheisia, nid a i dud  
 Glad o eltrydd gwlad altud:—  
 Ofer y daith, straid oedd,  
 Mwynaiddiach ein mynyddoedd;—  
 Lle mae a weos ddiwensiaith,  
 Gelfydd ym mhob mynydd mait."

Y mae Afon Aled, a Mynydd Hiraethog, i mi, yr hyn ydoedd Cedron a Hermon i'r bardd Hebreig, a Helicon a Parnasus i'r bardd Groegaid. Y mae yn wir iddynt hwy allu gwisgo enwau eu hoffus fannau âg enwogrwydd ac urddas clasurol, a dyddordeb cyffredinol mwy nag a allodd holl ymdrechion awenyddol Gruffydd Hiraethog a Thudur Aled gynt, a G. Hiraethog ac I. G. Aled yn awr, roddi erioed na byth ar eu mynydd a'u hafon hwy; ond er hynny, ni roddai beirdd Aled a Hiraethog y gores i feirdd Palestina a Groeg yn eu hymserch at y mannau y buont yn cyweirio tannau telyn en hawen yddiaeth gyntaf eriodynt.

Yr hyn a difenai fy sylw a'm serch boreol, yn bennaf, ydoedd hanesyddiaeth a scrydiaeth; ond prin iawn oedd fy manteision i borthi y tueddifryd hwn. Cyfagid fi yn hollol, braidd, at hanesyddiaeth y Beibl: "Drych y Ddaear a'r Ffurfaen"; "Daiaryddiaeth" R. Roberts o Gaergybi; "Geiriadur Ysgrythyrol" Charles; ac "Amseryddiaeth Ysgrythyrol" Llwyd o'r Bala. Mawr oedd fy awydd am cangiad moddion gwybodaeth yn y canghellorau hynny yn neillduol; ac ystyriwn y rhai oedd ganddynt gyflawnder o'r trysorau hynny o wybodaeth yn eu cyrraedd y dynion hapusaf dan haul; a thybiwn, pe buasant yn fy meddiant i, y buaswn yn gwbl ddedwydd. Ond y mae i bob sefyllfa

ei manfeision yn gystal a'i hanfanteision. Bu ty anfanteision boreuol hynny yn fanteisio i minnau mewn un peth—cyfyngodd gylch ty narffenyddiaeth yn bennaf oll at yr Ysgrythyr a'ns Sanctaidd; yr hyd a'm dygodd i'r fath gydnabyddiaeth a hwy, na chyrhaeddiaswn mo honi ond osol, pe buasai genyf wrth law ddisigedd o lyfrau eraill—cydnabyddiaeth a ystyriaf heddyw y pennai a'r gwerthiawrocaf peth a feddwyf.

Yr oedlun tuag ugain oed pan dueddid fy meddwl gyntaf i sylwi ar barddoniaeth: cyn hynny, ni theimlaswn nemawr i ddim dyddordeb yn y gelfyddyd. Caniadau Williams o Bant y Celyn, yn wir, a rodent i mi fawr hysrydwr er yn blentyn: ond prin yr edrychwn ar barddoniaeth yn y mesurau caethion. Yr un a fu yn offerynol i dueddu fy meddwl yn y florol hon ydoedd R. ab Dafydd (Robert Davies), o'r Gilfach Lwyd, Llansannan, yr hwn oedd i ni yn gymydog agos; a chanddo drysorfa led gyfoethog o lyfrau Cymreig, henafniaeth a barddoniaeth: a'r hwn oedd (ac sydd eto) yn dra hyddysg yng ngramadeg yr iaith, a rheolau ei barddoniaeth. Cyrrchn at fy nghyfaill R. Davies bob cyfleusdra a gawn i ddarllen ei lyfrau, ac i dderbyn ei addysgiadau. Ewyllysiai ei wneuthur bardd o honof; ond caffod waith caled i'm dysgyblu cyn y gallai hyd yn oed cynhyrchi unrhyw awydd ynnof at y gelfyddyd; a gwaith caletach na hynny drachefn i'm haddysgu i ddeall rheolau ac adnabod beiau gwaharddedig cerdd dafod; bum yn hir " fel llo heb ei gynhefino a'r iau." Athraw llymfanwi oedd R. Davies; nid oedd trugaredd na maddeu-

ant i'w cael ganddo am wall gramadegol neu gyngħanekkod; dwdriodd si yn erwindost lawer tro am wallau felly. Byddwn yn arawydo wrth fyned i chyfansoddiant i'w ddangos iddo; ond yr oedd fy nghynnnydd graddiol ya peri iddo fawr foddhad; a chredaf yn ddilys bod llwyddiant fy antursaeth gystadlemol gyntaf yn Aberhonddu wedi peri cymaint o lawenydd i feddwli fy athrâu ag a barodd i mi fy hun. Ystyriaf nad teg fuasai i mi esgeuluso y cyfleusdra hwn i dala y gydnabyddiaeth ddyledus hon i'm cynathraw, a'm hen gyfaill cywir galon.

Y " Cywydd ar Frwydr Trafalgar, a marwol-aeth y pen hlyngesydd Nelson," un o destynau yr Eisteddfod freiniol yn Aberhonddu, yn 1826, ydoedd Reuben—cyntafanegid fy awen. Erioed o'r blaen ni chynhygiaswn ar gyfansoddi cywydd, na dim arall o bwys. Cyfansoddid hwnnw yn hollol ar anogaeth R. Davies. Cyfansoddais ef ar y mensyndyd gyda'm gorchwylion, a rhedwn a dernyn ar ol dernyn yn yr hwyr at fy athrâu i'w ddiwygio. Nid oedd genyf si y disgwyliad lleiaf y bunsai iddo emnill y gamp, ond yr oedd ef yn lleid obeithiol; a dirfawr oedd fy syndod pan ddaeth y newydd o Aberhonddu mai yr eislu si oedd y buddugol. Derbyniais y wobr—ariandlw, gwerth dan gini, ac wyth gini yn arian—trwy ddwylaw y Dr. W. O. Pughe, yr hwn a safasai i'm cynrychioli yn yr eisteddfod, ac yr oedd yn trigo y pryd hwannw gyda'i fab, y diweddar Aneurin Owen. Ysw., yn Tan y Gyrt, gerllaw Nantglyn. Wedi ei ddychweliad adref o Aberhonddu, anfonodd y Doctor wahodd-iad i mi fyned i Tan y Gyrt, i dderbyn y wobr.

Wr oedd Bardd Nantglyn a rhai cyfeillion eraill wedi eu gwahodd yno i'm cyfarfod. Dyna y tro cyntaf i mi weled y doethawr, a bod yng nghyfeillach Bardd Nantglyn. Bu y Doctor yn hynod garedig i mi bob amser wedi hyn, pan ddigwyddwn awr heibio iddo; a'i fab, Aneurin Owen, a Bardd Nantglyn, yr un modd; yr hyn a roddai lawer o gyfnerthiad i'm meddwl yr amser hwnnw, ac a bár fod eu coffiadwriaethau yn dyner ar fy nghof a'm teimlad hyd y pryd hwn. Ychydig cyn hynny y daethwn i gydnabyddiaeth personol gyntaf â Chaledfryn. Yr oedd ef wedi dechreu blodeuo a rhagori fel bardd rai blynyddoedd o'm blaen i. Rhoddai Caledfrynn i mi bob addysg, hyfforddiant, a chefnogaeth, pan ddigwyddai ni gyd-gyfarfod; yr hyn ni ddigwyddai yn fynych iawn, o herwyddi ein bod wth milldir o siorod oddi wrth ein gilydd yn byw.

Yn anturiaeth gystadleuol nesaf ydoedd yn mhen dwy flynedd wedi y gyntaf, yn Eisteddfod Treiniol Dinbych, yn 1828. Cytansoddiadur ar dri o destynau, sef Cywydd "Ar ymdrech Buddug yn erbyn y Rhufeiniaid," Cywydd "Ar Orllisiaid y Môr dros Gantrœuf y Gwaelod," ac "Awdl farwniad i Goronwy Owain."

Hysbys i lawer o'm darllenwyr ddarfod i'r "Cywydd ar Frwydr Trafalgar" gael ei gyhoeddi gydag ychydig ganeon eraill, yn fuan ar ol yr eisteddfod yn Aberhonddu; ac i' "Cywydd ar Gantrœuf y Gwaelod" ymddangos yn y "Gwyneddigion," gyda chyfansoddiadau buddugol eraill yr eisteddied yn Ninbych. Teg ydyw i mi grybwylld ddarfod i mi gymeryd fy

rhyddid i newid cryn lawer ar y ddau ragor oedd ynt yn eu cyflwr cyntaf, fel y gwel y rhai a feddant y fantais i'w cymharu fel y maent yn y llyfr hwn it's argraffiadau cyntaf o honynyt.

Un o ysbryd rhyfelgar iawn yw y cyntaf; nid oeddwn yn barnu y baasai yn deg i mi gyfnewid dim ar ei ysbryd a'i dôn, gan y baasai hynny yn dinistrio ei unrhywiaeth. Yr oll a wnaed oedd tynnu ymaith linellan gweinion o ran meddwl a chynghanedd, a dodi rhai a olygwn yn gryfach yn eu lle, gan adael ystyr ac ysbryd y cyfansoddiad yr un a'r unrhyw.





TRAFAVGAR.

"Mawr far wrth Trafalgar fu,  
A rhyw slain ryfelu."

## BRWYDR TRAFALGAR.

HO anadl, bér awenydd,  
 Yn cwybr rhed, myn lwybr rhydd,  
 I wir adrodd gwryhydri  
 Campwriad ein Nelson ni :  
 Hen atwr Prydain eirioes,  
 Ni bu 'r un mewn neb rhyw oes  
 O'i wrolach, ar alwad  
 I dorri lawr fradwyr 'i wlad.  
 Hwn oedd dwrn, nawdd y deyrnas,  
 Dychryna gelyn cyndyn cas.  
 Pan oedd anferth ryferthwy  
 Rhyfelgar, na fu far fwy ;  
 Ewrob yn syn ddirgrynnu,  
 Bob gronyn mewn dychryn du ;  
 A braw yn ysgwyd ei brig.  
 Arswyd y blaidd o Gorsig :  
 Hwn fel erchyll ellyll, a  
 Ga'i haniad yn Gehena,  
 Dda'i allan â gwedd hyllig,  
 Yn llawn o dán o'r llyn dig.\*  
 Mynnai 'r byd i gyd o'i gwrr  
 I'w grafangau, gryf wingwr :  
 A'i dán aštrns dimistras,  
 Ewrob faith yn oddaith wnai.  
 Braw yn enaíd brenhinoedd,  
 Fu 'i enw ef, a'i ofn oedd  
 Yn gwelwi 't cryfa'i galon,  
 A du frâw a doai 'i fron.  
 Ond Nelson eon a wnneth  
 Ar ei elyn wrolaeth ;

\* Y Chwyldroad yn Ffrainc.

Ei wŷr enwog arweiniai  
 Heb ofn, ac i'w wyneb ai :  
 Ffrwynai efe ei ffroen falch,  
 A'i daer ysfa drahausfach,  
 Ei alon blinion a blwng,  
 Dafai i'r eigion dulwng :  
 Rhoes dranc ar rwysg y Ffranciaid,  
 Llonyddodd, blinodd y blaid ;  
 O flaen ei nerth, yn gerth gynt,  
 Eu llonau ymollynagyt.  
 Bu acw yn Aboukir,  
 Ymladd, a lladd, a gwali hir ;  
 Magnelau am orian maith,  
 A bytheirient boeth arraith :  
 Anadl angen dwy llynges,  
 Dyrchais yn niwdorchau nes  
 Pruddhau wyneb hardd anian,  
 Ennyn y dig donnau 'n dán !  
 Eisiau caer ni, caro a wnaeth  
 Ei alon direolaeth ;  
 Llaw angen ar eu llynges,  
 Estynnas, rhoddai yn rheis,  
 Eu llonau yn ddarnau i ddig  
 Daneddfawd y dona addig.  
 Bwrriodd i'r ddofinwleb oror,  
 Eu dynion mawrion i'r snôr :  
 C'weiriai 'u gwely, llety llraith,  
 Yn y dylif dwfn dulaith.  
 Erys ar go'r oesau 'r gair  
 A roddai yn arwyddair —  
 " Prydsain wyl ddisgwyl yn ddwys  
 Y gwelir ei meib gwiwlwys,  
 Ya gwneyd oll, oll a allont,  
 Lle bynnag, bynnag y bont."

A hynny a wnaeth ei hunan.  
 Yn mholb modd, ac yn mholb man,  
 Tra bu 'r gŵr yn milwrio,  
 Gorchlygodd, trechodd bob tra,  
 Ei hances, arwr hynod,  
 A'i haeddawl rygłyddawl glod,  
 Byth, byth, ni all awen bér  
 Yma henwi mo'u banner.  
 Y gorwych gampau gwrol,  
 Yn awr a adawn yn ol,  
 I adrodd hynt ei helynt a  
 Ei alon y tro ola'—  
 Tro a gofir, trig hefyd  
 Gof am dano tra bo byd.  
 Arhwylai i'r fawr helynt,  
 Flis ei gweidd, o flaen y gwynt;  
 Angorau'r llongau 'n llenagoedd,  
 Godui y blaid gyda bloedd;  
 Dyrchafent, lledent yn llon,  
 Yr hwyliau i'r awelon;  
 A'r llyngees eres yr roi  
 Dros y Werydd, rhudd yr ai;  
 A'r mdr mawr a'i lasnwawr li'  
 Tonnoig yn berwi tani;  
 Gwnai lwybrau trwy ei fras frig,  
 Ei rodiau a'i atedig,  
 Anafai wyneb Neision,  
 Chwalai 'r dŵr, a chilai 'r donn:  
 Trwy wybr Ner, y banerau,  
 Yn tryliwiawg, wibiauwg wan—  
 Ysgydwent, a u cysgodion  
 Ar rydd adenyydd y donn,  
 Roddai wawsr, curwawsr orwych,  
 Ar ddyfili y wellgi 'n wych.

Ond yn awr, rhaid mynd yn nes,  
 I hynod adrodd hanes  
 Diwedd helynt yr hynt hon,  
 A'i thradewr faith weithredion,  
 Ar y donn am lawer dydd,  
 Mordwyai mewn mawr dywydd ;  
 Ac i olwg y gelyn,  
 Hi a ddaeth, a pharodd hyn  
 Lawenydd i galonau,  
 Ni fn i wŷr hon lwrhae ;  
 E daniai y Prydeinwyr,  
 I waith y gad, eitha gwŷr.  
 Mawr fâr wrth Trafalgar fu,  
 A rhyw filain ryfelu ;  
 Anfad ryfelgad ar fôr,  
 Rwyg anfad ar eigionfor.  
 'Spain a Ffrainc yn ddwygains ddisig,  
 Yno oeddynt yn addig  
 Ddwy 'mhen un yn gytun gerth,  
 I'n dyrnu â'n casarn-nerth.  
 Nelson wron wnai arraith  
 Wrth ei wŷr, i'w nerthu i waith  
 Yr ofidus drafodaeth—  
 Eu hanner yn enwog wnaeth :—  
 " Brydeinwyr, arwyr ciroes,  
 Goreu o rym fagai'r oes ;  
 Meib gwrawl y mhab goror,  
 Penaethiaid, meistriaid y môr—  
 Mae adeg deg wedi dod,  
 I'ch dewrder a'ch awdurdod  
 I gael ei ddangos ar goedd,  
 A'i weled yang nghywmp miloedd  
 O'ch gelynnion creulon, cras,  
 Wrth eu trechu, eirth trachas ;

Er i ddwy genedl or ddig,  
 I ymroddi mor addig  
 Fel hya yn ein herbyn ni,  
 Trechwn, curwn y cawri.  
 Bydd trechun 'r ddwy yn fwy o fawl,  
 Erys i'wch glod anfarwawl :  
 Enw'n Ewrob y'mhob man,  
 Ennillwch o hyn allan ;  
 Hanes a ddyd nesau ddaw,  
 Am ein camp yma'n cwmpaw  
 Nerth yr hen unben enbyd,  
 Sy'n dychrynu, 'n baeddu 'r hyd.  
 Dowch i'r gad a'ch ergydion,  
 Effeithiol, cyfeiriol f'on' ;  
 Lluniwch folian 'r gynnau i gyd,  
 Oergwympr angeu y'mhob ergyd ;  
 Anelwch ag iawn olwg,  
 At eich galon, drawsion drwg :  
 Ar fyrdar, dyfnder y donn,  
 Hen ogof y dwfn eigion,  
 Fyddo iddynt fedd heddyw,  
 Un na feed ar ol yn fyw.  
 Diames afraid imi,  
 Wŷr enwog, eich annog chwi ;  
 Pa raid dyweyd ? parod ydych  
 Yn awr i'r gwaith, arwyr gwych.  
 Cocias mai dewr pob calon  
 Y sydd yn y llynges hon ;  
 "Rwy'n darllen yn eich gwén gu,  
 Y gwroniaid digrynu,  
 Mai sawdwyr grymus ydych,  
 Llwyr ddlofn, ac eoin ych."  
 Gan wres eres ei arraith,  
 Y gwŷr a daniwyd i'w gwaith ;

Yna twrf yr arfan tân,  
 Echrysawf ddechreuaasan'  
 Ya dra uchel fagnelu,  
 Drwy oror y dyfnder du:  
 Swn enbyd tanllyd bôb tu,  
 Tybiwn, yn gwrthathebu  
 Eu gilydd, mewn dig alaeth,  
 Gan rao mewm cyffro caeth.  
 Pylor yn lluchio peli  
 Tros wyneb maith, llaith ylli':  
 Melit gwreichionllyd, enbyd oedd  
 Yn dewfrith hyd y dyfroedd,  
 Nes haf'r môr oror eirian,  
 A thonnan 'r dyfnderau'n dân.  
 Creuloni wnae 'r weilgi wylt,  
 A ffrio yn gyffrowylt;  
 Dinistr ar ddiniestr a ddaeth,  
 Ddu afriadwylt ddifrodaeth;  
 Dynion mewn ing rhwng dannedd  
 Marwolaeth yn gaeth eu gwedd:  
 Angeu hyf, a'i gleddyf glas,  
 A luniai 'r mawr alanas.  
 Gwaed, wrth erchyll bistylliaw,  
 Droi'r eigion yn drochion draw—  
 Och, afar ! Ow ! Och hefyd !  
 Glasor yn gochfor i gyd !  
 A chur, anian ddychrynnid,  
 Yr oedd ar ei hwyneb wrid;  
 A Thrafalgar yn waraidd  
 A sigrif, grynnid i'r gwraidd.  
 Swn anfad yr hellgad hon,  
 Rwygai y dwfniau'r eigion:  
 Fe orwyltiai i ddeirf heilition,  
 Cythruddodd, digiodd y donn:

Twrf aflawen bob ennyd,  
 Hwylbrenni 'n holtti o hyd :  
 Lloagan 'n gorwag ymagor,  
 Yn ddrylliog i ferwawg fôr.  
 Mwsg a niwl o'r magnetoedd,  
 Yn wyldrych trwy'r entyrch oedd .  
 Pan f'nir pelan 'n gwau o gylch,  
 Hwy rwygent y môr o gylch,  
 O'u holau yn gwyau i gyd,  
 Ail i âr ar ol eryd !  
 Rhag twrf, a rhwyg y terfysg,  
 O'r hell bau, ffaoi 'r holl bysg :  
 Ni fu o'r blaen ferw blwng.  
 Na helynt mor anheilwng.  
 Na'r fath gyflafan ar fôr,  
 I'w chanfod ar drochionfor.  
 Wedi i'r mwsg, oedd d'wllwg du,  
 O'u goror ymwasgarn.  
 Gwech! llyngesau'r galon  
 Yn ciliaw, a braw i'w bron ;  
 Dan boenus, boenus benyd,  
 A'u lloagan yn agenau i gyd ;  
 A'u milwyr wedi 'a malu  
 Mewn digrif i'r dyfnder da.  
 Och ! mae ini gynt ac aeth,  
 Galar, a buddugolineth,  
 Ing ysol ! ein llyngesydd,  
 O i fraw son, yn farw sydd !  
 Pan oedd llwyddiant tyciant teg  
 Anrhyydedd, iddo 'n rhedeg,  
 A hael faint baddugol fri  
 Ar ei enwog goroni,  
 Dyna gwmwl dwl yn ded,  
 A du ofwy yn dyfod—

Aeth yn nos faith aro'ol,  
 Ciliai'r wawr yn awr yn ol.  
 A'r gan yn gwynfan dig aeth,  
 A miloedd mewn trwm alneth;  
 Ac i'r llynges hanes hon  
 Drydanai drwy y dynion;  
 Toai tristwch tew trosti,  
 Dyryswyd a hurtiwyd hi.  
 Haf ei chlod a faci'ludodd,  
 Yn osid triet acaf trodd;  
 Yna a'i tewi 'n anhawdd  
 Drwy hyn, a wylo 'n dra hawdd,  
 Yn ol i Brydain eilwaith,  
 Yr hwyliai, deuai ar daith;  
 Gwylywr y lan a'i gwelynt  
 Draw yn dod o'i hynod hynt,  
 Yna, fe roent i emlyn,  
 Bylor i gyhoeddi hyn.  
 A Phrydain hoff a redodd  
 I gyfarch drwy barch o'i bodd,  
 Ei meibion hoewon, gwnai hi  
 Am eu helynt ymholi.  
 Ethryb eu gweld yn athrist,  
 Gan boen drom, gwynebau 'n drist,  
 Hi a ddelwai 'n eiddilaidd,  
 A'i bron yn frawychus braidd.  
 " Ah ! fy meibion gwyction, gwâr,  
 Gwelaf eich bod mewn galair—  
 Mynegwch, na chelwch chwi,  
 Ba ryw achos bair ichwi  
 Heddyw i fod mor braddion ?  
 Ba helynt fu i'r hynt fawr hon ?"  
 Hwythau yn eu dagrâu, do,  
 Wnaen' ateb i hon eto :—



BROSNAU LLANLLANNAU,

"Ond mae'r bryniau lle ghwarcown  
Eto'n aros fel erioed."

" Bu golidiawg ferwawg far,  
 Rhyfelgad ger Trafalgar,  
 Rhyngom a'r Ffrancod drengaid,  
 Na bu erioed ei bath, braid.  
 Rhoisom ddiwl i'w calon,  
 A gwae tost, yn y gad hon ;  
 Ond ennill fu ddrud ini—  
 Costio wnaeth ein concwest ni  
 Einioes ein llywydd anwyl,  
 Hyn a wnaeth ddiwyno 'n hwyl."  
 Hithau droes mewn aethau draw,  
 Do, yn welwaidd, dan wylaw ;  
 Oer gwynodd mewn mawr gyni,—  
 " Ow ! Ow ! fy mab arab i,  
 Megais ddewrion feibion fil,  
 Hynod oedd ynt, nid ciddil,  
 Ac arwyr yn rhagori,  
 Nid tebyg, tebyg i ti,  
 Rhoist ddau aelod, hyglod wr  
 Gynt o'm plaid, euraid arwr,  
 Rho'i d'eirioes einioes union  
 A wnaid ti yn yr hynt hon.  
 Am dy faith iawnwaith ini,  
 A allaf, talaf i ti :  
 Cei orwedd, y cu wron,  
 Yn St. Pawl, a hawl yn hon,  
 Cofadail it cyfodaf,  
 Yn hon, a'i heneiniô wnaif :  
 Dy enw ar dal fy nghalon  
 Pery o hyd, per yw hon,  
 Bydd Nelson mewn gwiwlon gof,  
 Tra anian yn troi ynnof."

## IESU A WYLODD.

"Pan wylodd Eje y ddinas, Ef e a wylodd drosi."

**E**f a wylodd ! pwy a wylodd ?  
Wylodd Iesu mawr ei hun :  
Wylodd myrdd o'i flaen ; ond heddyw,  
Wyla Duw yn natur dyn.

Ef a wylodd ! pam yr wylodd ?  
Nid o'i achos ef ei hun ;  
Ond fe wylodd o dosturi  
Uwch ben cyflwr euog ddyn.

Ef a wylodd pan oedd tyria  
Fawr yn cyd-ddyrchafu i llef,  
Hyd y nefoedd, i'w foliannu,  
Gwenai pawb, ond wylai ef.

Ef a wylodd pan y gwelai  
Salem fawr ar fynd yn sarn,  
A dialedd ar ei dryllio,  
" A churfeidd y chwerwaf farn."

Ef a wylodd i rhyfedd gariad,  
At elynion drwg eu rhyw ;  
Yn ei ddagrau, cawn esboniad,  
Ar deimladau calon Duw.

Ef a wylodd ! do, bechadur,—  
Gwel ei ddagrau, clyw ei gri ;  
Wylodd drosot o dosturi,  
Bwlach, ai ni wylli di ?

**ENAIID BLINDERUS YN YMDFYN  
GORFFWYSFA.**

**D**UM yn chwilio 'r greadigaeth,  
 Am orffwysfa i'm henaid gwan;  
 Ond ni ches ond siomedigaeth,  
 Ym mhob gwrthddrych, ym mhob man;  
 Cefais fil o addewidion  
 Gan y cnawd, a chan y byd;  
 Wrth eu profi, ce's mai gweiglon,  
 A thwylodrus oe'nnt i gyd.  
 Holi ymhliith y dorf angylaidd,  
 Gofyn a oedd yno un,  
 Gydymdeimlai yn garuaidd,  
 A phechader gwael ei lun;  
 " Nac oes yma," atebai Gabriel,  
 " Nac oes, un o honom ni,  
 Gydymdeimla fag adyn isel,  
 Brwnt ac enog fel tydi."  
 Seddai 'm henaid mewn anobaith,  
 Gwaeddais mewn wylofus gri,—  
 " Ciliodd pob ymwared ymaith,  
 Darfu am danaf o'm rhan i;"  
 Cyfraith Sina yn gwgu arnaf,  
 Minnas 'n crynnu ger ei bron,  
 Tra f'wi 'n berchen anadl, cofiaf  
 Am y wasgfa galed hon.  
 Dyfrillyd olwg tua'r nefoedd  
 Drosais, ar yr orsedd wen,  
 Gwelwn mewn cyfryngol wisgoedd,  
 'R Oen fu farw ar y pren:  
 " Dacw fe," eb' f' enaid gwirion,  
 " Medrai ddarllen yn ei wedd,

Fod maddeuant yn ei galon  
I bechadur brwnt, a hedd."

Yna nesais at ei orsedd,  
Ac ymdreiglais wrth ei draed,  
A dadleuas am dragaredd,  
Yn haeddiannau mawr ei waed ;  
Meddwn,—" Mi dywallta'm calon  
Mi agora'm hysbryd briw,  
A dadguddiaf fy archollion,  
Pam yr ofnaf ? Iesa yw !"

Ac wrth imi agor iddo  
Fynwes euog, ffiidd iawn ;  
Fe agorai i'm cofleidio,  
Fynwes oedd o ras yn llawn ;  
Tynnodd ef fy meichiau trymion,  
A gwareddodd fi yn rhad,  
Ac a'i wén faddeuol dirion,  
Rhodd i'm henaid esmwythodd.

Bellach, caiff yr oll a feddwyf,  
Gorff a chalon, teilwng yw ;  
Ar y ddaear tra anadlwyf,  
Er ei glod, dymunwn fyw ;  
Pan y delw'i blith y dyrfa,  
Sydd o flaen yr orsedd fainc,  
Fy nigrifwch byth fydd canu—  
Canu 'r brynedigol gainc.

## VM MOSTYN A DINBYCH.

**M**N mhen o ddwy i dair blynedd wedi yr amser a nodwyd ddiweddaf\*, ymgymerais â swydd bwysig y weinidogaeth, a gadewais ardal bofus fy ngenedigaeth, byth i ddychwelyd i gyfanedd ynddi mwy, y mae yn debygol. Cyda chalon drom y censais yn iach y diwrnod hwnnw i lannau Aled, a bryniau Hiraethog. Dychymygwa fod yr afon, wrth ymdreiglo danaf pan yn croesi y bont, ar gwrr isaf pentref Llanfair, yn siall cydymdeimlad â mi, ac yn misemar ei flarweliad olaf; a bod Bron Llywelyn, a'r Foel Bengam, ar Ffynnydd Hiraethog, yn gwisgo " y niwl oer yn alarwsg," ar achlysur y ymadaiwriad. Teimla y meddwl ryw ddirgel twynhâd rhyfedd mewns gwneuthur cyfeillion dychymygol e'r mynydd, a'r bryn, a'r afon—mannau y buasai yn mynach gymdeithasu âg ei hun, ac âg anian, ger eu llaw, ac ar hyd-dilynat. Yr oeddwn y pryd hwnnw hefyd yn gadael nifer o cyfeillion hoff, cymdeithion a chynghorwyr fy ieuenctid, i fyned i gyfanedd y fysg dieithriaid, ac i ganol golygfeydd dieithrol. Yn Heol Mostyn yr oeddwn yn cyfnewid glan yr afon am lan y môr; a rhodfeydd grugog y mynydd am rodfeidd coedig parc Mostyn; y cymdeithion o'm cwmpas oedd y ceirw, yr ysgylarnogod, a'r phreasants, yn lle y defaid, y rogiar, a'r gylfinhir; swn dwndwr a phrysurdeb y gwaith glo, yn lle tawelwch y maes, y bugail, a'r amachthydd. Er hynny, ymgymodais â'm

\* Wedi Eisteddfod Dinbych yn 1888.

sefydla newydd yn lled fuan, a daethum i hoffi yr ardal a'r trigolion yn fawr; ac y mae yn dra hoff genyf hyd heddyw am ardal a phreswylwyr Mostyn. Treulais yma yn agos i chwe blynedd o amser dedwydd, a llwyddiannus hefyd i raddau; ac y mae adgofon y blynnydd—oedd hynny yn felus gennyl.

Ni chafodd yr awen ond ychydig o gymdeithas fy mediwl yn ystod fy nhriegias yn Mostyn. Ychydig o ganiadau byrion—y gân ar "Gwympr Babilon," yr hon a ymddangosodd yn y Gwladgaror; y gân ar "Ymadawiad y Cenadas o Madagascar," yr hon a ymddangosodd yn y *Dysgedydd*; "Marwnad y diweddar Barch. J. Roberts, o Laabrynmair," yr hon a ymddangosodd yn ei "Gofiant;" ac ychydig gyflieithiadau o'r Seisoneg—oedd yr oll a gyfansoddai yn y blynnyddoedd hynny.

Ar ddechreun y flwyddyn 1837, symudais i a'm teulu i Ddinbych, i gymeryd gofal yr Eglwys Annibynol yn Lôn y Swan, wedi marwolaeth fy nghyfaill hybarchus a hoff, y Parch. D. Roberts. Ya ystod yr amser y bûm yn trigo yno y cyhoeddwyd "Cofiant y diweddar Barch. William Williams, o'r Wern," a'r "Traethawd ar Grefydd Naturiol a Dadiguddiedig." Yr Hirachgan yn niwedd y Cofiant ydyw un o'r darnau mwyaf bodol genyf o'm holl gynhyrchion awenyddol; ac nid rhyfedd hynny, canys yr oedd ei gwrthoddrych gennyl yr hawdd-garaf a'r anwylaf o ddynion.

## CWYMP BABILON.

**B**EETH Babilon fawr yn drigfa cythreuliaid,  
O uchder gogoniant y syrthiodd i lawr;  
Dwystfilod yr anial, llwynogod a bleiddiaid,  
A drigant o fewn ei phalasa'u yn awr.

Bu unwaith yn eiste'n arglywyddes teyrnasoedd,  
A gwaraiddi ymgrymai y byd ger ei bron;  
Hi lynnai warogaeth a pharch y cenedloedd,  
Etu posod dan ardreth a theyrniged wnai hon.

Pan godai o'i gorsedd, y byd a arswydai,  
Y ddaear a grynnai pan deimlai ei thraed;  
A nodai bob amser y llwybr a gerddai,  
Drwy 'i liwio âg afon lloeriol o waed.

'Roedd gâtddi frenhinoedd yn rhwym mewn  
caethiwed,

A rhai wedi tynnu eu llygaid i ffwrdd :  
Hi wawdai 'o trueni, a chwarddai en gweled  
Yn disgwyl am friwson fel cwn dan ei bwrdd.

Yn uchder ei llwydd, hi a dd'wedai,— " Mi fyddaf  
Yn ddinas goronog y ddaear i gyd ;  
Sefydlaf fy ngorsedd rhwng ser y Goruchaf,  
Yn ol fy ewyllys y llywiaf y byd..."

Jehofah a glybu hyll adlaïs ei balchder,  
A chwarddai mewn dirmyg—" Na, na ! " ebl  
ebe,

" Er iti roi'th orsedd rhwng ser yr uchelder,  
Ystlysau y flos cyn hir fydd dy le.

" Ag anadlu fy ngenau y'th hyrddir oddiyna,  
I lawr i ddyfnderau y pwll a thydi ;  
A holl ardderchogrwydd dy falchder a beidia,  
Ym mynwent gwaradwydd y cleddir dy fri."

Daw'r Fabel ysbyrydol yr un modd a hithau,

I lawr ; mae ei dydd yn prysur neshau ;

Pan esgyn mwg llosgiad yr hon i'r wybrenau,

Bydd nefoedd a daear yn cydiawenhau.

Yn ofer y cyfyd ei themlau ysbleyydd,

Mae diwrnod ei distryw tragwyddol gerllaw ;

Mae angel yr Arglwydd yn trwsio i'adenydd,

A'i udgorn yn barod yn awr yn ei law.

Yn fuan fe'i gwelir yn Hedu ei esgyll,

Gan hedeg yn gyffym trwy ganol y nen ;

Wrth fyned, udgana, cyhoedda i chwymp erchyll

Nes adsain y ddaear a'r awyr uwch ben.

Mae gwaed y merthyron dywalltodd yn erfyn

O'r ddaear am ddial—mae'r llais yn y nen ;

Mae dwrn yr Anfeidrol yn gaeaf i'w herbyn,

A disgyn y dymod cyn hir ar ei phen.

Yn ofer ymdrwsia—ei dinistr a dyngwyd

Yn arfaeth a bwriad tragwyddol yr Ior ;

A phan ddaw ei dydd, hi a sodd a mewn munud,

Un fath a maen melin yn nyfnder y môr.

Bydd llawer o herwydd ei chwymp yn alarus,

Ac eraill a ganant ei marwnad yn llon ;

Holl saint y Goruchaf yn fuddugoliaethus,

Lawenant am ddinistr y butain fawr hon.

## EANGDER Y GREADIGAETH.

## I.—SYNIADAU ATHRONYDD GERMANAIDD.

**G**ALWODD Duw o'i nos freuddwydion  
Farwol ddyn i drothwy'r ne'—

"Dring i fyny, gwel ogoniant  
Mawr fy mhalas," eb efe.

Archai i'r gweision gylch ei orsedd—  
"Tynnwch gnawdol wisg y dyn,  
A rhwch anadl yn ei ffroenau  
O'r fath a feddwlch chwi eich hun.

"Golchwch ei olygon eto,  
Er eu puro a'u nerthu 'n fwy,  
Yn y fynnon lle 'r arfera  
Engyl oedi u llygaid hwy;  
Ond ei galon ddynol dyner,  
Fedr grynnu dan ei fron,  
Wylo, ac ymdoddi 'n ddiagrau—  
Na newidiwch ddim ar hon,"

Hynny wnaed; a'r dyn a safai  
'N barod i'r anteidrol daith;  
Angel cadarn yn arweinydd  
Iddo trwy 'r eangder maith:  
Oddiar fur ganllawian 'r nefoedd,  
Can cyflwmach golau 'r wawr,  
'Hedai 'r ddau tel am y cyntaf,  
I'r diderfyn wagle mawr.

Weithiau treiddiant trwy ororau  
Meithion o dywyllwch mawr,  
Lle na thywyna saif goleu  
Hasl na seren hyd yn awr:  
Anial diroedd o farwolaeth,  
Na threiddiasai "Byddied" Duw

Eto 'r iored i'w brus, i'w rodde  
 Ffuri na delw bod, na byw.

Wedyn deuennt i gyffiniau  
 Lle'r oedd gallu Duw ar waith,  
 Yn cenedllo credigaeth  
 Newydd, i'w ogoniant maith;  
 Heuliau newydd eni'n ffiamio,  
 A phlanedau fwy na mwy  
 Yn ymsaethu i fodolaeth  
 Megys i'w cyfarfod hwy.

Ar y dde a'r aswy iddynt,  
 Heb na diweddu fyth na rhi,  
 Cydser yn osgorddion disglair,  
 Lefent arnynt, "Wele ni!"  
 Pyrth tragicydol yn ymagor,  
 O bob maint, a flur, a llan,  
 Pyrth a mein i'w adeiladaeth  
 Yn blanedau a ser bob un!

Arianrodau cyferbyniol,  
 A ymflurifiant yn fwân,  
 A'u rhychwantau anfesurol  
 Am y nefoedd yn ymgau;  
 Dirif dyrau a cholofnau  
 O anfeidrol nerth a maint,  
 A'u copâu'n ymddyrrchafu  
 Cu'wch a nefoedd wen y saint.

Oddi mewn oedd megys grisiau  
 I esgyn i'r uchelder draw;  
 Neu i ddisgyn i'r dyfnderau  
 Anfesurol oedd is law!  
 Dyfnder lyncid yn yr uchder,  
 Uchder yn y dyfnder maith,

Fel nas gelliad fyth admabod  
Dyfnder nac ucheder chwaith.

Fel y saethent ar en gyrra  
Ymaith drwy 'r eangder gwyrdd,  
Dyna ddolef yn eu cyfarch,  
Adsaïn uchel byfoedd fyrdd—  
Fod cysawdau dirifedi,  
Ffurafenau fwy na mwy,  
Eto, eto, yn eu haros,  
Ar ymddangos iddynt hwy !

Yna 'r dyn ochneidai, safai,  
Crynnai, wylai gyda hyn ;  
Suddai 'i galon orfethedig,  
Ac ymdoddai ynddo 'n lllyn ;  
" Angel ! nid af gam ymhellach,"  
Eb efe, " ni allaf fyw—  
Annioddefol ydyw 'r olwg  
Ar ogoniant mawredd Duw !

" Ysbryd dyn ni all ymgynnal  
Dan fath anfeidroedd mawr ;  
Angel ! Angel ! gad im' farw,  
Cladd fi yn fan hon yn awr !  
Tyn y llenni tros fy llygaid,  
Digon ! Digon ! Digon yw !  
Nid oes diwedd, nid oes derfyn  
Byth ar greadigaeth Duw !"

Ac oddi wrth y ser cylchynol,  
Fyrdd myrddiynau, adsain glir  
A ddychwelsai, gan arddadgan,  
" Y mae 'r dyn yn dweyd y gwir !  
Nid oes diwedi, nid oes derfyn  
Ar y creadigol waith,

Anfeidroldeb heb ei chwilio  
 Fydd i dragwyddoldeb maith,"  
 " Ai am nad oes derfyn iddi,  
 Y'th ddychrynnir, druan ddyn ?"  
 Eb yr angel—neb ni 'tebodd,  
 Fel cai ateb iddo 'i hun.  
 Yna 'i freichiau gogoneddus  
 A ddyrchafai i nef y nef,  
 Gwaedda! allan,—" Nid oes derfyn  
 Ar ei greadigaeth Ef ! "

## 2.—SYNIADAU O'R YSGRYTHYRAU.

" *Ti, yn y dechrenad, Arglwydd, a seiliaist y ddaear.*"

Ti yn y dechrenad, Arglwydd,  
 Greiaist ddaear lawr a'r nen ;  
 Taeniaist dros eu 'sgwyddau 'n brydferth,  
 Awyr las yn ddisglair len :  
 Rhyfedd lawn a gogoneddus  
 Yw'th weithredoedd bob yr un,  
 Ond gogoniant mwy ofnadwy  
 Sy'n dy hanfod di dy hun.

" *Ac yn cynnal pob peti trwy air ei nerth.*"

Gair dy nerth yw'r golofn gadarn,  
 Dan y greadigaeth fawr ;  
 Arno, megys ar obensnydd,  
 Anian ddoda 'i phen i lawr :  
 Bydoedd dreiglent dros yr erchwyn  
 I ddiddymdra, wrth ymdroi  
 Yn eu gwely, oni byddai  
 D'air i'w cadw rhag osgoi.

"*Gwaelod iddynt barhau byth yn dragywydd.*"

Dy saerniaeth a gysylltai

'R nef fel pabell gled ddilys,

Fel na all dylanwad oesan.

Syfylt un o'i hoelion byth :

Gorchest ddwyfol ydoedd hoelio

Bydoedd ddirifedi ynghyd—

Gorchest fwy oedd rhoi dy hunan

Yn hoeliedig tros y byd !

"*A phwy a ganodd y mor a dorau ?*"

Y rhwadwy fôr cynddeiriog,

Drinit megys baban gwani,

Pan o groth y tryblith rhedai,

Gan ddyrchafu 'i donnau i'r lan ;

Ar dy lin gorweddai 'n dawel,

Rhoit y cwmwl iddo 'n bais,

A'r tew niwl yn rhwymyn tyner

Am ei wasg, heb unrhyw drais.

"*A'r tywod mân yn gadwyn iddo.*"

Gweuit dywod mân yn gadwyn

Am ei lwynau rhwth yn glyd ;

Dodi'r lleuad fel llawforwyn

Ufadd iawn i siglo'i gryd :

D'wedit "Ust !" yn aghlust y dymestl,

Hi ddistawai—hunai ef

Ar ei gefn, a'i wynеб gwastad,

Esmwyth, llydan, tua'r nef.

"*Efe a orchymyn, a chyfyd tymkestiwynt, yr hwn a ddyrchafa ei ddorau.*"

Weithiau gyrra'r gwynt i'w ddeffro,

A deffroad ebrwydd bair—

Egyr ei amrantas mawrion,

Gan ymstwyrian wrth dy air ;

Chwyddaa i donnau fel mynyddau,  
 Rhua megys taran fawr,  
 Hyrddia i freichiaas preiff, ac egyr  
 Anferth safn i lyncu 'r Hawr.

"Pan edrychwyf ar y nefoedd, gweith dy fyseodd."

Pan edrychwyf ar dy nefoedd  
 Uchel amherfynol draw,  
 A'r aneirif ffurfafenau  
 Grogaist yn ei bru uwchlau :—  
 Heulian tyrdd myrddiynau 'n ffiamio,  
 Ac yn tywallt gwres y dydd  
 Ar fillynan maith o fydoedd,  
 Yn daenedig ynddynt sydd.

"Beth yw dyn i ti i'w gofio ?"

Beth yw dyn i ti i'w gofio ?  
 Beth yw dyn ? Jehofah mawr,  
 Pan feddylit ti am dano,  
 Bryfyn isel ar y llawr ?  
 Beth yw 'r ddacar ? dim ond llwchyn—  
 Llai na dim yw dyn a'i fri ;  
 Eto, rywloedd, dyn a daear  
 Demtisiai i lawr dy sylw di !

"Ac yn llawenychu yn nghyf/aneddle ei ddacar  
 ef."

Pan y gelwid yn y boren  
 Restr enwau ser y nen,  
 Deuenit oll dan ganu a dawnsio,  
 Heibio i'r orseddfainc wen :  
 Yn ei thro, ymhlieth y lluaws,  
 Ymddanghosai 'n daear ni—  
 Cododd gwrid i wyneb cariad  
 Dwyfol, pan y gwelodd hi !

## BEDD WILLIAMS O'R WERN.

DVMA'R fan mae'r tafod hwnnw  
 Gynt ro'i Gymru oll ar dán,  
 Wedi i gloi yn fudan heddyw,  
 Ya isel-fro 'r tywod mân ;  
 Ar y wefus fu'n diferau  
 Geirian fel y dilian mel,  
 Mae hyawdledd wedi fieru,  
 Clai sydd arni, mae dan sel !

Cwyno wna dy frodys gweiniaid,  
 Williams, heddyw am danat ti,  
 Megys eiddil blant amddifaid  
 Am eu tad yn drwm eu cri ;  
 Mae dy enw yn argraffedig  
 Ar galosau myrdd a mwya,  
 Mae dy goffa 'n fendigedig  
 Ac yn anwyl ganddynt hwy.

Son am danat mae'r eglwysi,  
 Bob cyfarfod d'ont yn nghyd ;  
 'R hen bregethau fu 'n eu toddi  
 Gynt sydd eto yn eu bryd ;  
 Merched Sion, pan adgofiant  
 D'enw a'th gynghorion call,  
 Ceisiant adrodd, bnan methant,  
 Wyla hon, ac wyla 'r llall.

Pe b'ai tywallt dagraff 'n tycio  
 Er cael eilwaith weld dy wedd,  
 Ni chait aros, gallaf dystio,  
 Hanner munud yn dy fedd :  
 Deuaï 'r holl eglwysi i wylo,  
 A gollyngent yn y fan,

Ffrwd ddigones i dy nosio  
O waelodion bedd i'r lan !

Williams anwyl ! llecha dithan  
Mewn distawrwydd llawn a hedd ;  
Boed fy neigrynn gloew innau  
Byth heb sychu ar dy wedd ;  
Haul a gwynt ! mi a'ch tynghedaf,  
Peidiwch byth a'i gyffwrdd ef,  
Caffied aros haf a gaef,  
Nes rhudd udgorn barn ei lef.

Darf u'r llafur a'r gofalu,  
Teithio trwy y gwlau a'r gwynt,  
Fel bu wrth bregethu a chasglu  
At addoldai Cymru gynt ;  
Darfu'r llafur, darfu'r cystiidd,  
Darfu'r peswch, darfu'r boen,  
Darfn marw—ond ni dderfydd  
Ei lawenydd gyda'r Oen.

Ca'dd yr orsedd, ca'dd y goron,  
Ca'dd y delyn yn ei law ;  
Ac y mae wrth fodd ei galon  
Gyda'r dyrif a'r ochr draw :  
Caiff ei gorff o'r Wern i fyny,  
Foren a'r adgyfodiad mawr,  
Wedi ei wisgo ar ddelw Jesu,  
Yn disgleirio 'n fwya na'r wawr.



BREUDOWYD Adoer.

"Adgof hen deimladau dedwydd,  
Adgof ydyw'r oll o'm cân.

## YNG NGHADAIR PRIFARDD.

**G**DRYCHWN ar gadair prif fardd eisteddfod freiniol bob amser fel sefyllfa uwch law galluoedd pennaf fy awenyddiaeth i fedre dringo iddi; ac, yn wir, ychydig iawn o eiddigedd a deimlaswn un amser am y ragorfraint. Ac o herwydd y ddau beth yna, ni chynygiaswn erioed am dani, na meddwl o ddifrif am hynny chwaith, hyd nes y daeth testym cadair Eisteddfod Madog allan yn 1851. Teimlais awydd cryf i gyfansoddi "Awdl ar Heddwch" i'r gystadleuaeth honno, dened a ddelai o honi. Yn gymaint ag mai Brwydr ydoedd testym fy nghyfansoddiad cystadlenol cyntaf, y byddai i hwn, yr olaf yn ddau i mi, ddwyn ei dystiolaeth dros Heddwch, a dadgan rhinweddau a bendithion tangnreffedd.

Llefara fy meirniaid yn uchel am deilyngdod yr "Awdl ar Heddwch;" ond dywedant,— "Da pe cawsai yr awdwr ychydig mwy o hamdden i'w hadolygu cyn ei hanfod i'r gystadleuaeth." Ychydig iawn yn wir o hamdden at hynny a allasai gael—yr oedd yn anorffenedig forceu y dydd olaf i'w dodi yn y llythyrdy i'w chludo i law ysgrifenaydd yr eisteddfod. Yr oedd ganddo, tra yn ei chyfansoddi, heblaw ei alwadau gweinidogaethol, a golygiaeth yr Amserau (yr hwn oedd o dan ei ofal y pryd hwnnw), y llyfr Seisnig a gyhoeddodd—"Providence and Prophecy"—yn y wasg; un tudalen o'r hwn a gymerai gymaint o'i amser i'w barotoi ag a gymerasai hanner cant o dudalenau yn y Gymraeg.

## AR YMWELIAD I GYMRU.

**G**YMRU anwyl ! mae fy nghalon  
 Yn dychlamu dan fy nwyfron,  
 Wrth arogl i'r iach awelon  
     Oddi ar dy dir ;  
 Cael dod i yfed iechyd,  
 Ar dy frysian hyfryd,  
 O ffwg y dre', afaich le,  
 A'i nwyfre gas anhyfryd ;  
 A chael treulio gweddill einioes,  
 Olaf oriau 'r freul ferroes,  
 Yn dy oror, fy ngwlad eirioes,  
     Wy'n ddymuno 'n wir.  
 Gosteg, fôr ! bydd di yn dawel,  
 Na chyfoda 'th donnau 'n uchel,  
 Tra bwy'n hwyllo o flaen yr awel  
     Tua Chymru fad,  
 Pam yr wyt yn brochi ?  
 Beth a wnaethum iti ?  
 Pam mae stwr dig y dŵr  
 A'i gynnwr yn gweini ?  
 Nid rhyw Jonah 'n ffoi i Darsus,  
 Ydwyf si, boed hyn yn hysbys  
 Iti, fôr, bydd dangnafeddus—  
     Gad im' fynd i'm gwlad.  
 Henffych well ! mi welaf lannau  
 Menai deg, a hen fynyddau  
 Oesol Arfon, a flynhonau  
     Ar eu pennau dardd :  
 Treigla gloewon ffrydiau  
 Tros eu serthion ochrau,  
 Chwery 'n llon ar eu bron,  
 Belydron haul y boreu ;

Natur fel y daeth hi allan  
 O dan law y Crewr ei hunan,  
 Heb ddim o llaw dyn yn unman—  
 Dyna 'r lle i fardd.

Henfych well i'r dydd a'm dygo  
 Eto i Gymru fwyn i drigo,  
 A chael byw ac aros yno  
     Hyd i derbyn oes ;  
 Gado'r Fabel Seismig,  
 A'i thwrw cas annidrig,  
 I fwynhau tawelwch clau  
 Pro 'n tadau—le breintiedig ;  
 Dianc ymaith o afaelion  
 Pia anfetus blin ofalon,  
 Llechu rhwng ei bryniau tirion,  
 Heb na chri na chroes.

Anghlod fyth i'r dynion diflaeth,  
 Cyflog-weision y llywodraeth,  
 A ddygasant gamdystiolaeth  
     Am fy hoffus wlad.  
 Er hynny, Gymru dirion,  
 Cymer di rybuddion ;  
 Cofia gais y tri Sais,  
 Clyw lais eu llyfrau gleision ;  
 Dilyn soberwydd a dwyreidded,  
 Ym mhob ardal, cynnal burdeb,  
 Cadw eirda mewn cywirdeb,  
     Gochel dwyll a brad.

Benthith nef orffwyso arnad,  
 Tra fo llewyrch haul i lleuad,  
 Cyd-deyrnased hedd a chariad,  
     Rhwng dy frynian di ;

Meithrin ddysg a rhinwedd,  
 A rhodia mewn anrhydedd ;  
 Gochel ffyl fynd ar ol  
 Wag farwol goeg oferedd,  
 Tra bo'r mŵr ya golchi'th lannau,  
 Tra Eryri ar ei gwadnau,  
 Nac anghofia iaith dy dadau—  
 Cadw, coledd hi.



## R. AP GWILYM DDU.

**G** LYNLLEIFIAD lawn llafur,  
 Awen bach, i Ffion bur,  
 Dianc yn ddistaw dawel,  
 O dre y mwg i dir mel;  
 A chai yno iach anadl,  
 Wych o hyd yn lle tawch hadl.  
 O hagr swn a chlegr y Saes,  
 Crochleff y Gwyddel crychlaiss,  
 A'r Ysgotyn, tordyn tew,  
 Crintach, ystyfnig, croentew,  
 Ymorol—cai ymwared,  
 Yn chwai, chwai—hai, hai ! ehed !  
 A hydd, o digwydd y daw  
 Un dyn wrth it' fynd ynaw,  
 Neu ferch deg, a' th gyfarch di,  
 Na ateb, archaf iti,  
 I yrru ymlaen heb eiriach,  
 Hyd borth y Mynachdy Bach.  
 Cera'r dder, cau agoriad,  
 Yno i ti bydd caniatad.  
 Yna, wedyn, heb oedi,  
 I fewn dos—ymofyn di,  
 Ai byw hen esgob awen,  
 'Rhwn a'i wallt yn goron wen  
 Uwch ei ael yn gylch welir,  
 Cysgodlen i'w awen fr.  
 Mae fal doeth dderwydd, coeth, call,  
 Eres wr o oes arall :  
 Peraidd iawn yn naawn cinioes,  
 Yw ei gân, fel y' mrig oes ;  
 Parchus iawn y' mhrydnawn cinioes,  
 Ri wedd ef yn niwedd oes.

Llais ei gerdd, felusgerdd ion,  
 Ymlid oñd o Eifion ;  
 Cana fel hefydd ceinwych,  
 Uwch ben yn y wybren wych,  
 Neu geiliog bronfraith gwiwlion,  
 O'r dail fry ar dal y fron,  
 Ei awen, hon yn ei henaint,  
 Iraidd yw heb arwydd haint ;  
 Eos yw—pan dery sain  
 Beroriaeth byw arwyrain,  
 Arwydd i'r adar creill  
 Dewi, a'n llesg dawn y lleill.  
 Am un waith, minnau euthum  
 Drwy Aedd\* y bardd, ar dro bam :  
 Gardd awen, a'i gwyrdd wiail,  
 Ni bu un arid hardd o'i hail.  
 Eirian law yr awen lwys  
 Fu'n brodiaw'r fwyn baradwys.  
 Lluosog ceir llysiau cain,  
 A blodau wynеб lydain ;  
 Rhosynas aml-liwian 'n lwys,  
 Urddolant yr ardd wiwlwys :  
 Coedlwyni caead lawnion,  
 Irion, heirid, a geir yn hon ;  
 Ac adar lu, mwynwar mân,  
 Ar gangen yn per gyngan ;  
 Ac o'r tewirig lle trigant,  
 Ein swyno ni â'u sain wnan,  
 Difyr yw gweled Dwyfach,  
 Esgud wedd, a'i physgod iach,  
 Yn chwarae rhwng ei cherrig,  
 Hynaws ddull, heb un naws ddig.

\* "Gardd Eifion," gwaith barddonol R. ab Owlym Ddu. Cyleirir at y cywydd sydd ynddi.—"Myfyndod y bardd a'i lan Dwyfach."

Yr afon lon ddolenna  
 Drwy'r Ardd, gan ymdroi yr a ;  
 A'r Ddwytawr, loewrydd afon,  
 A iraidd lif drwy'r ardd lon ;  
 Ar hyd mân raean hi red,  
 Yn fwyna' dim wrth fyned—  
 Y sia hon a naws heini,  
 " Y môr ! y môr mawr i mi !"  
 Ar Ian ddiyfr lonydd,  
 Y Bardd Du yn syllu sydd,  
 Efo'i " fwyn lawforwyn fach,"  
 Awenydd, fu ei mwynach ?  
 Hyfryd hynod yw rhedio  
 Gyda'r bardd drwy ei Ardd o ;  
 Ac eistedd ar lawr gwastad,  
 Neu ar fryn, heb un oer frad ;  
 Ac esgyll coed yn gysgod  
 Uwch ben—onid iach yw bod  
 Yno yn gorfiwys ennyd,  
 O boen a thrafferth y byd ?  
 Trin y dael, troi a'n dwylaw  
 Flodau thysion, llon a'r llaw ;  
 Sawru y llysiau irion,  
 Hel llo o'r briallu llon.  
 Addefir bod Gardd Eifion  
 Heb ei hail, mae wyneb hon  
 Dan d'wniad gwen heulwen ha',  
 Un wedd ag Eden-Adda.  
 Mwy yw helaelth doraelth da  
 Gardd Eifion na gardd Efa ;  
 A cheir melusach aeron  
 Ar Bren Bywyd hyfryd hon,  
 Nag oedd ar un honno gynt,  
 A rhinwedd geir o honyn :

Eli i ofid y cleifion,  
 Esmwythider i brudd-der bron ;  
 Eli iachâ elwch hen  
 Niweidian trymion Eden,  
 Ddeunai arnom ryw ddiwrnod,  
 Nod o farn ofnaidwy i fod :  
 " Drwy goeliaw y drwg elyn,  
 Marwolaeth a ddaeth i ddyn."

Ba'nd rhyfedd yn siwedd oes,  
 Oedd i'r hen brif-farudd eirioes,  
 Yn Eifionydd droi 'n fynach !  
 " Och di byth, Fonachdy bach !"  
 Yno hwylodd cyn elawr,  
 Ys ei fynd o'r Betws Fawr.

Myned sy raid i minnau,  
 Canu 'n iach bellach i bau  
 Gwerdd Eifion, a'i gardd hefyd,  
 A'i hardd hen brif-farudd—mae 'n bryd  
 A'i gu Efa, deg hefyd,  
 Enau ffraeth, dirion ei phryd :  
 Hoen ddiddan i'w hen ddyddiau,  
 A hedd fo 'u diwedd eu dau :  
 A phan del gorffeniad oes,  
 Dirwyniad edau'r einioes,  
 Eiddunaf i'r ddau anwyl,  
 Anniwedd oes, newydd wyl.



HENDOWCH.

*Oddiwrth y darlun gan Syr Edwin Landseer.*

## MORGAN HOWELL.

Gwae ni ! Ha ! Morgan Howell— a fu ddyn,  
 Fuddiannai ddawn uchel ;  
 Ei enau sydd o dan sel,  
 Oer y tywod, dir tawel.\*

Gwr oedd o foddwl gwreiddiol—a donian  
 Danient yn rhyfeddol ;  
 Athraw o ddull dicithriol,—  
 Un o'i ryw ni cheir o'i ol.

Dyn a'i enw yn dwyn eneiniad—y nef,  
 Nofio wnai mewn teimlad ;  
 Uchel oedd yn mharch ei wlad,  
 A mawr iawn ei gymeriad.

E roi fywyd mewn tyraoedd—dyn Duw,  
 A dynmai dŵn o'r nefoedd ;  
 Ei wedd a'i lais treiddiol oedd,  
 Yn eu lle crynnai lluoedd.

Gyda 'i lef pan goda 'i law—deneu fach,  
 Dyna fyredd yn ddistaw ;  
 Dagrau geir yn llifeiriaw—  
 Rhedai lîf fel sfrwd o wlaw.

Iachawdwriaeth pechaduriaid—yr Iawn  
 A'i rinwedd bendigaid,  
 Oedd ei destun, bu'n ddi-baid  
 Yn berwi yn ei bur enaid.

\*Bu y gwr rhyfedd hwn farw Mawrth 22, 1852,

Wedi ei fynd mae adwy fawr—oes, oes,  
 Mae dwys eisiau 'r blaenawr;  
 Wylwyd ar ol ei elawr,  
 A wylo wna mil yn awr.

Wylo wna Cymanfaoedd—o'i herwydd  
 Gan hiraeth eu lluoedd,  
 Sy yn flin am swn y floedd,  
 Adfywiai 'u cyn'lleidfaeodd.

Ebrwydd aeth at ei obrwy,  
 Ar y maes nis ceir e mwya,  
 Wedi hau mewn dagrau daeth,  
 Awr i fedi 'r orfodaeth;  
 A llon ger bron ei Brynydd,  
 A holliach bellach y bydd.  
 Y lle nad oes boen na llid,  
 Na chwÿn dan fynych wendid.  
 Dirgelwch, harddwch, urddas,  
 Angen 'r grog, a chyngor gras,  
 Arfaeth Ior a'r drefn fore  
 Wêl yn awr yn aqoleu ne' :—  
 Ar ei ol ofer wylo,  
 Yn nef wen canu wna fo.

## THOMAS GEE O DDINBYCH (Yr Hynaf).

Yn ei oes un hynawsach—ni chafwyd,  
 Na chyfaill cywirach;  
 Dyn o enaid unionach  
 Ni bu erioed dan wybr iach.

E swynai 'i hynaws wyneb—ni 'n hollo,  
 Enillai anwyldeb;  
 Rhoi gwarth anair gwrthwyneb,  
 Iddo'n wir ni feiddiai neb.

Delw 'i enaid a lanwai—ei wyneb,  
 A'i wén a arwyddai,  
 Y dymer lân feddiannai,  
 Bur a mwyn fel bore Mai.

Gŵr Duw oedd, geirda iddo,—a'i enw  
 Heb un anaf arno:  
 Anrhymeddedd lle bu 'n rhodio;  
 A'i goffid mewn parch gaiff o.

E ddiwedodd ei ddyddiau—mewn heddwch  
 Mwyneiddiaf, heb ofnau;  
 Y mae yn awr yn mwynhau,  
 Ei delyn mewn gwlad olau.

## RICHARD JONES, LLWYNGWRIL.

A hir y cedwir mewn co'—oludog  
 Sylwadau wneid gando;  
 Heriai undyn i'w wrando,  
 A'i ddwy glust dan farwaidd glo.

Athraw oedd ef dieithr ei ddawn,—oedd enwog  
 Dduwinydd pur gyflawn;  
 Traethu gwir tæreithiog iawn  
 Dan eneiniad wnai 'n uniawn.

Hynod ei ddall ydoedd o,—a gwreidiol  
 Gwir addysg geid gando;  
 Caem werth ein trafferth bob tro,  
 Heb wiriondeb i'w wrando.

Agor ini 'r gwirionedd,—a'i adrodd  
 Wnai 'n fedrus mewn symledd;  
 Fe roi i lu ddifyr wledd,  
 Gwersi o olud, gwir sylwedd.

Dwthwn ei gylchymdeithio—oedd hirfaith  
 Ddarfu, mae'n gorffwys o;  
 Hirneth gyfyd wrth goho  
 I ddu fodd ei gudfio fo.

## EMYNNAU.

*Cariad Crist.*

**D**YMA gariad fel y moroedd,  
Tosturiacthau fel y lli';  
Tywysog bywyd pur yn marw,  
Marw i brynu 'n bywyd ni;  
Pwy all beidio cosio am dano  
Pwy all beidio canu 'i glod?  
Dyma weithred nad a 'n anghof  
Tra fo nefoedd wen yn bod.

Ar Galfaria yr ymrwygodd  
Holl flynrhonau'r dyfnder mawr:  
Torrodd holl argaeau'r nefoedd,  
Oedd yn gyfain hyd yn awr;  
Gras a chariad megys diliw,  
Yn ymddywallt yma 'n nghyd;  
A chyflawnder pur a heddwch  
Yn cusaru euog fyd.

*Hawddgarwch Crist.*

**D**ARCHOG yn dy degwch dwyfol,  
A dadguddia'th hawddgar wedd;  
Mae'th hawddgarwch yn dychrynu  
Angeu, uffern fawr, a'r bedd;  
A chalonau meibion dynion  
A lesmeiriant ger dy fron,  
Wedi 'u trechu gan belydrau  
Cariad dy wynepryd llon.

Tecach yw na meibion dynion,  
Fe dywalltwyd gras a rhin,

Ar ei wefus : melus odiaeth,  
 Yw ei enau, fel y gwin.  
 Ar ei ruddiau mae lledneisgrwydd,  
 Purdeb ac addfwyndra 'nghyd,  
 Yn rhyw hyfryd gydgymysgu,  
 Iesu, tegwch wyt i gyd !

*Holltau'r Graig.*

**H**OLLTAU oedd Sinai yn mellteulu,  
 A'i tharanau 'n rhwygo'r nen,  
 Cwmwl tanlyd ei melldithion  
 Ar ymrwygo uwch fy mhen,  
 Nef a daear yn fy ngrthod,  
 F' erlid wnai 'r uffernol ddraig,  
 Yn fy mherwygl a'm cyfyngder,  
 Ces ymguddfa 'n holltau'r graig.  
 Dyma 'r fan y gwnaf fy noddfa,  
 Yma llecha f'enaid gwan,  
 Pan fo'r gwynt a'r tonnau 'n curo,  
 Dyma 'r unig dawel fan;  
 Rhued byd ac uffern greulon  
 Yn eu llid i'm herbyn mwya,  
 Minnau 'n holltau'r graig a ganaf,  
 Ac nid ofnaf monynt mwya.  
 Ac yn nydd y farn ofnadwy,  
 Pan y fly 'r mynyddau mawr,  
 Ac y syrthia ser y nefoedd  
 Megys fligys ir i lawr,  
 A'i clennau 'n cydymdoddi,  
 Gwres yn berwi tonnau'r aig.  
 Dewrion fyrdd yn bloeddio 'n chwerw,  
 Canaf si yn holltau'r graig.

## Pwy, Pwy vw Ef?

**D**WY, pwy yw ef sy'n dod i lawr  
 Trwy euraidd byrth y nef yn awr,  
 Mewn galis a gogoniant mawr?  
 Mac'n bur ei wedd, fel bore wawr;  
 Mae'n hardd ya wir:  
 Mae'n dod, mae'n dod, yn nes, yn nes,  
 Fe wrida'r nefoedd fel y pres,  
 Tawdd y cymylau gaa ei wres;  
 Ai melldith ddwg, ai yntc lles?  
 Genhadwr pur.

Beth, beth sydd ganddo yn ei law?  
 Ai udgorn yw?—mae'n peri braw!  
 A ydyw diweddf byd ger llaw?  
 Ai dedryd olaf natur ddaw  
 O'i enau ef?  
 Mae'n dedi'r udgorn wrth ei fin,  
 Gan dynnu anadl iddo'i hun,  
 I'w dywallt allan yn gytun  
 Mewn udgorn floedd, na bu'r fath un  
 O dan y nef.

Gwrandewch! gwrandewch! holl luoedd  
 Ac ystyr dithau, ddaear gref, (nef,  
 Ar swn ei lais, a sain ei lef;  
 Pob gair a ddaw o'i enau ef,  
 Sy'n bwysig iawn:  
 Distawrwydd dwfn deyrnasa'n awr,  
 Ac astud wrengy nef a llawr,  
 Y ryfedd genadwri fawr,  
 Sy'n dod o'i enau, angel gwawr,  
 Mewn nerthol ddiawn.

## YR ANGEL.

" Syrthiodd, syrthiodd, Babilon,  
 I lawr, i lawr, i lawr aeth hon,  
     Dan fara a gwg yr Iâr;  
 O'i mawr ogoniant hyrddiwyd hi,  
 A nerth anfeidrol ruthr cry'  
 Fel melin faen i'r dyfnder du ;  
     Mae tonnau'r môr  
 Yn golchi dros ei gwedd ;  
 A llw iehofa 'n sicrhau  
     Na chyfyd byth o'i beidd !

" Wel, byddwch lawen, lawen iawn,  
     Chwi nef y nef yn awr ;  
 Ac uwch chwithau yn y gân  
     Holl lucoedd dacar lawr."

## CYDGAN NEF A DAEAR.

" Addolwn, molianwn, crechwenwn, fe ddaeth  
 Dydd dial ar Babel, fe'i daliwyd yn gaeth ;  
 Dwrn Duw Hollallusog i'r llawr a'i tarawodd,  
 Ac anadl ei enau fel brwmstan a'i taniodd.  
 Haleluiah—y mae ei mwg yn dyrchafu,  
 A'i lludw ar aden y corwynt yn chwalu :  
 Addolwn, molianwn, crechwenwn, fe ddaeth  
 Dydd dial ar Babel, fe'i daliwyd yn gaeth."

## HEDDWCH.

¶ ! EIN daear andwyol— ei chyflwr,  
 Och ! ei hafwyd moesol ;  
 Arni saif traeusol  
 Briwiau y cwymp boreusol.

Dygwyd ei chreadigol—addurniart  
 Oddiarni yn hollel,  
 Ei hafddydd newydd yn ol  
 Droai'n nos druenusol.

Y chwiorydd, Hedd a Chariad,—oedd gwir  
 Hawddgarwch y cread ;  
 Tirion oes eu teyrnasiad,  
 Bri hon fu o fyr barhâd.

Un Sabbath llawn o scibiant—yn dywydd  
 O dawel orffwysiant,  
 Fu i anian yn fwyniant,  
 Cyn troi 'i thon, cyn torri 'i thant.

Y br re hwannw, y ser wybrenol  
 A gydganasant mewn nwyfiant nefol ;  
 Tonau cariad o'u tannau cyweiriol,  
 A glybu'r ddaear fwynwar glustfeiniol—  
 Hon wnai anfon yn ol—i lys nef lân  
 Adseiniau eirian y gân blygeiniol.  
 Holl feibion Ion a'i weision unasant  
 Yn thronau fil a tharanau o foliant,  
 Orwychaf fiwsig a ddyrchafasant—  
 " I dy gu enw, O ! dod eganiant !"  
 Y nefol lysoedd siglasant—temi Naf  
 Hyd gyron isaf y byd grynasant.

Yn y fwyn beroria honno—dau lais  
 Oedd dlysach yn seinio

Mawl eu Ner, na'r miliwn o  
Benceirrid oedd yn cydbyncio,  
Adda ac Efa gyfion—yn Eden,  
Roent y nodau mwynision ;  
Eu lleisiau hwy yn llys Ion—wnaent chwy-  
Yn mhell uwch law i alaw angylion. (ddaw  
Daw Ior uchel edrychodd,  
En haberth fawl, bu wrth ei fodd ;  
A derbyniodd wirfoddawl  
Offrymiad mwynfad en mawl.  
A'r hael Ior agorni i law,  
Ei ddihalog ddeheulaw,  
A thaenellai ei fendiffios ahan  
Y dydd hwnnw i fedyddio anian.  
Afon o fywyd ymlifai'n fuau,  
Ymchwyddai, llédai dros y byd llydan ;  
Dim dolor amhur yn unaman—yn bod,  
Neb un i'w ganfod dan boen i gwynfan.  
Awyr iach y ddaear hon—oedd beraidd,  
Heb arogl clefydon,  
Ar ei chwyl drwy'r uchelion—ymsiai ;  
Bywyd a chwiwain drwy'r byd A'i chwaon.  
Pob awel dawel deuai—A'i mwyniant,  
Ei mynwes agorai ;  
A rhyw fawr drysawr didrai—n haelionus,  
O rad daionus a hyfryd daenai.  
Gwenwyn, un defnyra nid oedd—yn natur,  
Hon eto, iach ydoedd ;  
Angeu, a defnydd ingoedd—a gofid,  
Hwy ni anesid, nac un o'u iasoedd.  
Aroglion per a dreiglynt—ar dyner  
Adenydd boreuwyt ;

Hyd ogylch y byd dygynt—rin dwyfol,  
Bywyd anfarwol oedd dreiddiol drwyddydnt.

Adda enwog oedd ynad—hedd anian,  
Trwy ddoniau'r eneiniad,  
A roddai Ion ar hardd iad  
Y dyn, ddydd ei ordeiniad.

Gras a phurdeb, anfarwoldeb,  
Yn ei wynyb—glân a wenent;  
Hedd a chariad—yn ei lygad,  
Mewn ymدونiad—mwyn ynd'w'nneant.

A llonaid ei enaid oedd  
O nwyf, a hedd y nefoedd;  
Ar amod, mewn cydrwymyn,  
'Roedd cydfod Duwdod a dyn;  
Ufudd-dod cu o da dyn,  
Oedd y nefoedd yn ofyn,  
I nef, tra parai'n ufudd,  
Cai wynfyd, bywyd, pob budd.

O tan yr amod honno—addewid  
O'r ddiaeac roid iddo,  
A'i holl luoedd i'w llywio  
I'w lles wrth i'ewyllys o.

Gŵyl o hedd fu 'r egwyl hon,  
A chariad oedd ei choron;  
Ni adwaenid trist wyneb,  
Eilun o wg yn ael neb;  
Ni weid dig gymylan tân,  
Yn awr un yn awyr anian.  
O'i lys, Cyflawnder i lawr  
Oddi ar ei orsedd eurwawr,  
Edrychodd, gweleodd o gylch,  
Trwy eigion natur ogylch;

Ond un gwall, neu ball, na bai,  
 Yn ei olwg, ni welai :  
 Yna hael wenau ei hedd,  
 Dylanwad ei radloneidd,  
 Yn wleth o fendiff o'i fodd,  
 Ef yn anwyl ddefnynnodd  
 Yn enaint ar ben anian,  
 A bodau'r llawr, mawr a man.

Hasl y wybr a ymlwybrodd—i'w hwyrbarth  
 Cyferbyn enciliodd ;  
 A'i hwyr wawr a oreurodd—from Eden,  
 Yr ardd orlawen, a hardd arliwodd.

A natur aeth am un tro  
 I hun y noson honno,  
 Heb ddolur, llafur, na llid  
 Rhyfel, nac unrhyw ofid.  
 Mwynaidd yn ei menydd hi  
 Oedd ei breuddwydion iddi,  
 Breuddwydion hirion o hedd,  
 Ac o fwyniant cyfannedd.  
 Mil o anian milfeinig,  
 Nid oedd un o duedd ddig :  
 Y llew orweddai'n y llwyn—  
 Ymarweddai mor addwyn  
 A'r ddafad, heb frad i'w fron,  
 A gwâr oedd, fel hydd gwirion ;  
 Teigrod, nid oedd ynt egrach  
 Yn null eu byw na llois bach ;  
**Un** dywalgi dialgar  
 Ei ystryw am fyw drwy far ;  
 Y blaidd mor waraidd wirion,  
 Ei fryd a'r oen, ar y fron ;  
 Y llwynog ni chynlluniai  
 Frad i neb, na difrod wnai ;

Nid oedd yn y surff wŷn dig,  
Nac anianawd gwenhwynig.

Holl anian oedd yn lloonydd—dan nodded  
Aden heddwch beunydd ;  
Hedd ymlifai, rhedai 'n rhydd  
Yn awyr y byd newydd.

Eithr ryw sut, e ruthrai Satan—obry  
O abred, tan lechian ;  
Y du ellyli drow'd allan  
Efo'i leng o wynia idan.  
I dâan, o dan gadwynau,  
Lethol gosh, i'w bythol ganu  
Dan oriynder digter Duw,  
A'i ddialeidd yn ddiluw ;  
Taliad eu brâd—ofnadwy  
A fu cosb eu rhyfyg hwy.

Satan a droes, tynnai draw—y dydd hwn  
O eigion wylt annwn, dan gynllwynau ;  
O'i ffau y gwibiai 'n dra pheli,  
Gan dawchio gwŷn a dichell.  
Adsaïn cân anian unawi—  
Y bêr dôn a glybu'r diawl ;  
Gwrandawai, elastieiniai'r fall  
Dacog, er mwyn cael deall  
Y gwaith, a natur y gân—a'r achos  
O'r ushel orosan ;  
Ai 'n ei flys at lys nef lân,  
I chwilio oll, a chael allan.

Deulais geid yn y dlos gân  
Suai eto 'nghlust Satan,  
Yn doniad, ni adwaenai  
Y sain hwn—i synnu aî—

Ymsyniai am y seiniad,  
 O ba lwyth, ac o ba wlad  
 Y deilliai ? pa oedd dullwedd,  
 Rhyw a maint y rhai a'i medd ?  
 " Wyf yn adwaen," fe nodawdd,  
 " Gân nef, y mae'n ddigon hawdd ;  
 O gôr y llys, ysbyss wyf,  
 A dawn pob un adwaenwyf.  
 Oeddwn yn athraw iddynt  
 Yn y gân, a'r pennau' gynt :  
 Gan yr Ior i'w glodfiori,  
 Oes un, ond a ddysgais i,  
 Yn medra mwyn glymu 'i glod,  
 A difyr gân ar dafo? ?  
 A dynna 'i daliad imi ?  
 Gofwy o siom gefais i !  
 Hwy oll yn awr, llawen 9nt  
 Yn y swydd ddysgais iddynt ;  
 Hwy yn cydfwynhau eu cân,  
 A mi 'n greddfu mewn griddfan ;  
 Hwy yn nefol eu golwg—  
 Wele fi mewn damniol iŵg.

" Ond bod yn was allaswn—eto 'n nef  
     Tan Ior, pe mynaswn ;  
     A mol i gyda'r miliwn,  
     Yn ddihaaint ar y dydd hwn.

" Nofio mewn gwynfyd nefol—allaswn,  
     Yn lle ysu'n ddamniol  
     Adyn hyll, o dan holol—felldithiad,  
     Gwae anobeithiad, a gwyniau bythol.

" Y gân hon sy'n dig enynnau—'mhoenan  
     I'm henaid mae'n brathu

- Y cof am y gwynfyd cu—a pherffaith,  
 Yn nefoedd unwaith fum yn feddiannu.
- " Ond, a fawr edifeiriaf—o herwydd  
 Im' hero'r Goruchaf ?  
 Hynny'n wir, byth, byth ni wnaf—ymrodd-  
 A thrwy falais y gwrthryfelaſ. [ais,
- " Ond ha ! wel dyna ail doniad—uthrawg  
 Y dieithriol ganiad ;  
 Nodau y dōn a'i newidiad,  
 A iaith hon ni wn, na'i thad.
- " Mae'n taro i'm meddwl manwl y munud  
 Hwn, i'r ion, ar ryw ddiweddar ennyd,  
 Lusio aneddfa lân o newyddfyd ;  
 A chreu hil newydd, rai uſudd hefyd,  
 O fri uchelwawr a difrychreulyd,  
 Mewn gegoneiddus ddifeius fywyd ;  
 A hwy 'n es hoewfro sy'n cilio 'r gân hyfryd  
 Hon yu ddiau, mewn mwynaidd ddy'hewyd :  
 Heddyw gwyl, berthwyl eu byd—sydd yno,  
 Rhaid imi am dano i chwilio ddychwelyd.
- " Archwiliaf hyd erch waelod—aneglur  
 Dwni wagle diddarfod,  
 O bwnc i bwnc, os yw'n bod,  
 Af heibio, mynnaf wybod.
- " Ac felly, os eaf allan—newyddfyd,  
 Caf noddia a thrigfan—  
 Lle imi godi 'm lluman—i fyny,  
 I ail enynau rhyfel yn anian.
- " A throï dedwydd fyd dieithr y Duwdod,  
 Yn lle y maes im' allu ymosod,  
 Er torri dewrder taer ei awdurdod ;  
 A tharo â melldith uthr a malldod,

Y rhai glân sy'n rhoi 'i glod—allan yno,  
A'u dwyn oddiarmo, wel dyna ddymnod.

Y drwg elyn draw giliai  
I'w ymndaith, ac ymaith ai.  
Fe wyltiai fel llem feliten  
Ar ei nawd drwy fro y nen,  
A'i olwg craff, treiddgraff trodd,  
I'r iselion, arsylwood  
Ar fydoedd afrifadwy  
Hwnt oedd—aeth heibio hwynat hwy,  
Nes y daeth i'r Llwybr Llaethog—helaeth,  
A'i heuliau tylwrythog,  
A'r llysoedd tra lluosog,  
A gair yn ei grair yn grog.

Ar brif haual yr wybria hon,  
Digynnodd, salodd yn syn,  
Holl ser ewybr y llwybr llon,  
A nododd mewn munudyn.  
Gwelodd un, gwyliodd honno,  
Ail graffodd, edrychodd dro,  
Uthr oedd, a dicithr iddo,  
Ei gwedd yn ei olwg o.  
Ymlwybro hyd ymyl wybren  
Y Llwybr Llaeth a wnaeth drwy 'r nen

A'i orsaф nesaf a wnaid—ar y lloer,  
O'r lle yr arsyllai;  
Ac i'w olwg y gwelai—y byd glân,  
Llid ei hen anian danlyd enynnai.  
Fel llew cryf, hyf ar 'sglyfaeth,  
Rhod naid i'r ddaear a wnaeth,  
Chwiliai, olrhainiai bob rhan,  
Ysbiwr cyfrwys buan;



RHUTIER BALACLAVA.

*O'r cerflun gan W.J. Goscombe John, RA.*

"Heda'u gweryriad hyd y gochorau,  
Llidiâ ffriw anwar eu taithlyd ffroenau,  
Yn ail i ffyrnig enyanoù ffwrnasau.

A chwai y deuaï 'n ei daith  
I fro Eden ar fradwaith.

A chanfu Adda ac Eia gyfion,  
Dan bren y bywyd, hyfryd eu dwyfron,  
Yn huno 'n wyl, a'r mwyniawn awelon  
Yn eu hanwesu eill dau'n hynawsion ;  
Mawr eu hurddas, mor heirddion—oedd y ddau,  
Byd a neuaddau y bodau newyddion !

Satan ai yn nes eto—i'w golwg  
Eilwaith, dan glustfeinio ;  
Ef ennyd safar yno—eu tegwch  
Hwy a'u dedwyddwch oedd syndod iddo.

Dirgelwch eu heddwch hwy,  
Hwn ydoedd annirnadwy  
Iddo ef—ni wyddai fod  
Hyd yma, un cydamod  
Yn Eden, ar y pren praw'  
Ar Addaf, roi lor iddaw :  
Ddu ellyll, ni ddeallai  
Pa fodd i'w tripio i fai.

Adda ar y boreuddyd,.  
Ag awel dawel y dydd,  
Ddeffrodd, a galwodd ei gu  
Efa anwyl i fyny.

Clybu Satan eu hymddiddan,  
E dd'ai allan yn ddeallol,  
Am yr unig bren nodledig,  
Gwaharddedig arwyddiadol.

Cadd yr allwedd i'w feddiant,  
'N ol chwim ei uffernol chwant :  
I'w bell daith, tua'i bwll dwfn,  
Unionodd i'w hen annwin,

I ddwyn y newydd yno—  
 Hanes ei daith hirfaith o.  
 Pan orffenodd adroddi  
 Iddynt ei holl helynt hi,  
 Ei frodyr diafrydawi  
 Gyfarchai—d'wedai'r pen diawl;—

"O! chwi herodron am wych wrhydri—  
 Duwiau y trinoedd, tadau trueni,  
 Na ddigalonnwech, fe ddaw goleuni;  
 Codwch, anturiwch, mae gwawr yn torri,  
 Llwyddais i gael allwedd—dry gloion,  
 Egyr byd dynion yn union inni.

"Myn fy flwrn, mi wnaf fy ffordd,  
 Er bri usfern—fawr brif-flordd,  
 I'ch tywys ar fryss i fro  
 Yr hynod ddaear honno;  
 A mynnaf weld fy maniar  
 Bygddu hon yn union ar  
 Dalaf frig y dawel fro,  
 A'r annedo urddfawr honno;  
 Mynaf y mawr, myn fy myd,  
 Pren bai fydd pren y bywyd!

"Dyn uniaawn a wnaawn fel ni—yn filain  
 Rhyfelawg ei ynni;  
 A'i ddaear i'w hasar hi,  
 Ys trown yn faes trneni!"

Pan yr aeth pennaeith y pwll  
 Drwy ei arasith hirfaith hell,  
 Cydroi wnaf y cedyrn oll,  
 Gyfarchwaedd ddig, ddiellig ddull.  
 Griddfannai, adseina'r swn  
 Yn agenau creig annwn—

Tyngent ryfel trybelid  
 Yng nghwrdd llawn angerdd eu lliid,  
 Yn erbyn nef, ac hefyd  
 Holl anian gyfan i gyd.

Y dydd hwnnw mewn diddanwch—dreisid,  
 Rheolai gwir heddwch ;  
 A dwioliad dawelwch—dibryder,  
 Heb arw drawster, a barai dristwch.

Hedd yn dal ei deyrnwialen,  
 Fyny roedd y faner wen.  
 Ar godiad tywyniad haul  
 Yn nôr y dwyrain aresl,  
 D'ai angylion, ar awelon,  
 Yn westeon hynaws duedd ;  
 I'r dyn weithion, ei gymdeithion  
 Fu haef fwynion nefol fonedd.

Iehofa ddenai hefyd  
 I fwyn ymweled a'i fyf,  
 A'n dedwyddol dad Addaf,  
 Mewn purdeb yn wyneb Naf,  
 Llawenhâi yn llawn o hedd,  
 Addolwr dieiddiledd :  
 Duw Ion oedd Hyannon hoff hedd,  
 Digoneidd ei deg enaid,  
 O'r hon yr yfai yn rhydd,  
 O lawenydd ei lonnaid.  
 Ond wele ! 'r diwrnod olaf  
 I ddyn oedd, ac i Dduw Naf,  
 I'w gweled gyda'u gilydd.  
 Yn Eden fro 'n rhodio 'n rhydd.  
 Wedi i'r Ior ado'r ardd,  
 I honno, Satan anhardd  
 A ddaeth mewn bradwriaeth dig,  
 Lew uffernawl a flyrnig,—

I lunio rhyfcl a'i enyn—a dwyn  
 Pob dinistr i'w ganlyn—  
 Nod ei dwyll oedd gwneyd y dyn  
 Anwylaf i Dduw 'n elyn.

Yr awrhon digon yw dweyd,  
 I Satan afian ei awyd  
 Lwyddo 'n wir heb ludd i wneyd  
 Ei ran, a chael dyn i'w rwyd.

Dyna heddwch wedi ei anhuddo,  
 Ow ! y dyn anwyl wedi 'i wenwyno—  
 Ael y nef uchel dawel yn duo,  
 A'r awelon yn torri i wylo,  
 Weld lluman Satan gas, O !—yr awrhon,  
 Yna 'n uchaision Eden yn chwifio.

Torrai gwewyr trwy natur i'w gwywo,  
 Ei chaniadaeth a droi 'n ochenesdio,  
 Can loesan mawrion y gwnai lesmeirio,  
 Doedai 'i hagwedd fod Duw wedi digio.  
 Tân a mellt yn ymwylltio—a'r gwewyr  
 Dorrai 'n yr awyr yn daran ruo.  
 Cerubiaid ar frys a ymwregysent,  
 O uffud anian, cydymfyddidolent,  
 Eu telynau 'n nghangau helyg hongient,  
 Yno awelon ar eu tannau wylent.  
 Yr ethol osgeirdd gornerthol a wiagent  
 Lurugau gemol, anrhreiddiol rai oeddent :  
 Eu lluo'n i ryfel allan a rilent,  
 Ac i fyny eu benyr c'wfansen ;  
 Saethau i'w gorchwyl yn syth a gyrshest,  
 O gawell y daran, tan atynnent :  
 Yn eu dwyliaw yn gleddyfau, daliad  
 Y mellt ufeiliar, a'r llachar lluchient ;  
 A llu y galon mewn gwall a gilient,

Saethau'r cerubiad i'w henaid wament,  
 I'w hanawfni ffiaidd mewn ofn y floent  
 Yn archolledig, ac erchyll uident.  
 Y milwyr nefol yn ol annelent,  
 Draw i Baradwys drwy y wybr chedent ;  
 O fro Eden, y dyn ddiofrydent  
 Yn noethaf alltud, a'r pyrth a folliwent ;  
 Ar Addaf, gwg arwyddcat—eu cledd chwyrn,  
 Dlysig gedynn, a gydysgydwent.

Dyna ddiweddu ar heddwch—a dechreu  
 Oes dychnyn a th'wllwch ;  
 Flineiddiaf afflonyyddwch,  
 Gorthrymder, pob trawster trwch.

Yn lle heddwch a llwydiant—ow ! mallod,  
 A drain melldith dyfant ;  
 A chwyn cefigen a chwant,  
 Hyd wyneb y byd daenant.

Llidiol anianawd llewod yn union,  
 Aent yn gwerylus, rhuent yn greulon :  
 Llewpardiaid, bleiddiaid, eirth, teigraidaid hagron,  
 Am waed yn awchus y gys flyrnigion ;  
 Noethi eu dannedd weithion—wnant beunydd,  
 I herio 'n gilydd, gynddeiriog alon.  
 A nwydau rhyfel mewn adar hefyd,  
 Ya awr enynnent yn yr un ennyd—  
 Eryr, barcutan, a'r gigfran goegfryd,  
 A llawer iawn o rai gwydlawn gwaedlyd,  
 Yn lliodiog fradog o fryd—a llawn byw,  
 Eon haid afryw, i wneyd diofryd.

Ond Ow ! dyn ! i hwn, do, daeth  
 Ofnadwy gyfnewidiaeth.

Natur wedi suro—daear a nen  
 Droai 'n awr i'w hwtio ;  
 Pawb mewn llid i'w ynalid o,  
 Ac â dwnr caead arno.

Elfennau rhyfel i'w tynwes—neidient,  
 Berwai 'i nwydau 'n ffwrnes ;  
 Prawf fu arno, profai ernes,  
 O druseni, nid trwy hanes.

Rhuo 'n nerthol erwin arthes,  
 Wnai ei daer gydwybod cres ;  
 Iddo i lechu, nid oedd loches—rhag sain  
 A germain ei gormes.

Ond Ion a roes hen aden rasol  
 Ei wir drugaredd rad ragorol,  
 Yn awr yn noddfa i'r amneddiol,  
 Y dyn du, esog, flawd, andwyol.

Yn y dwi gwmwl, ymgamai—y bwa  
 Uwch ben, ac arwyddai  
 Gymod am bechod a bai,  
 Ael anian ail ymlonnai.

Ac o'r addewid, gwawr ddeuai—allan,  
 A'r t'wllwch a giliai ;  
 Yna llid y storm ai' n lhai,  
 Hael wyneb nef lawenai.

Had y wraig ddai 'n graig fawr gref—sylweddol  
 Sail heddwch a thangnaf ;  
 Ail unrir Duw 'r oleunef  
 A dyn eto ynddo ef.

Ail enir holl hil anian—odd' uchod,  
 Heddychir y cyfan ;  
 Yn un oll o hyn allan,  
 A'r byd mewn gwynnyd a gân.

Hen deyrnas Satan druenus eto  
 A oresgynnar, a daw rhwysg honno  
 I ls agwedd, ei ben ga'i ysigo ;  
 Ei orsedd enwir dynnir o dano  
 I lawr i annwn—fe'i teflir yno ;  
 Rhyfeloedd gwaedlyd trwy 'r byd wnaant beidio  
 E yrr efengyl eu twri i angho',  
 A'i dylanwad y byd wna adlunio ;  
 Dedwyddwch, heddwch iddo—a ddwg hon,  
 Yn loew afon o hyd i ymliso.

## II.

Am hirion faith dymhorau,  
 Had a chwyn y gefyn gau,  
 A dyfasant hyd fensydd—y ddaear,  
 Gan ddwyn chwerwon ffrywythydd ;  
 A meibion dynion bob dydd,  
 Dan eu cur yn dwym cerydd.  
 Nodwyd cyntafanedi—dynoliaeth,  
 Do'n elyn mileinig  
 I heddwch ; trodd Cain addig  
 O wydd Duw yn llofrudd dig.  
 E godai Nimrod gwed'yn,  
 Egr ei ddull, yn deigr o ddyn :  
 Y gwrao hwnnw gryn ennyd,  
 Fu'n poeni, 'n dibobli'r byd ;  
 Heliwr, rhyfelwr a fu,  
 Mawr a thrwm am orthrymu.  
 Codai ereill cadarwyr  
 Yn y gwaith—fileiniag wŷr,  
 O hyd, i feithrin a hau  
 Eu gwenwynig gynhennau ;

Bronnau enwir brenhinoedd,  
 Ar dán gan awyddifryd oedd ;  
 Am rwysg, ac am oresgyn  
 Yn eu rhoib—mynnai rhoi hyn  
 Enw cled am ddwyn y cledd,  
 I rwygo meibion gwragedd.

Eu synwyr ar wasanaeth—fu oesau,  
 Dyfeisient ryfelaeth ;  
 Drwy y byd yr ysbryd aeth  
 I cfryd u difrodaeth.

Yn eu bár anar llunient beiriannau,  
 Miniog, angeuol, ddeifiol gledidyfan ;  
 Gwaewflyn erchyll, cyllyll, picellau,  
 Bwâu gwenwynig—hyllig fwyellau ;  
 I roi 'u hanedwydd ryfelgar nwydau  
 Ar weithrediad yn eu cadruthriadau ;  
 I rwygo 'u gilydd â dreigiog aelian ;  
 Gwneyd celanedd, gan waedu calonnau,  
 A chreu yn niweidiol ddychryniadau ;  
 Hyrddio 'n ingol fyrdiynau i angau :  
 Ba warth rhoi'r fath aberthan—i astrus  
 Awydd fyw wancys rhoi am orseddffeinciau !

Dau d'wsog yn halog fygyiu,  
 Yn ferwedig gan fradlwriadu ;  
 A gwŷn chwerwnaws fel dau gi 'n chwyrnu,  
 A gerwin agwedd dan ysgyrnygu :  
 Asgwrn barai'r terfysgu—fai rhynghddynt,  
 A hwy ni fyddyt well o'i feddu.

Am lain o dir, milain daerent—dau lyw,  
 A dwy wlad gynhyrfent ;  
 Dwy genedl a gydgwnnent—yn awchus,  
 Mor ryfygus i'r gad ymarfogent !



RHYFEL,

*Oddiwrth y darlun gan Syr Edwin Landseer,*

Neu o achos y chwenychent—fenyw,  
 Yn fynych ymgornient :  
 Am eu Helen ymhолент—fel dwy ddraig,  
 O duedd i wraig, gwledydd a rwygent.

Awch heintus eu trachwantau,  
 A ferwai ddwfn far y ddaau,  
 I arfogi mawr fagad,  
 Hyrddio 'r gwyr yn fyrrdd i'r gad.

Aberthau dynol i borthi dan odd  
 Hen Foloch ddygai trawsfach eiddigedd :  
 I'w duw offryment—offeiriad ffrownwedd,  
 Luoedd diriawr ar ei allawr hellwedd ;  
 A thruenus ddynoliaeth a rhinwedi,  
 Eu dwy wylent wrth weld y dialedd,  
 Ol y glas angeuol gledd—ar farwol  
 Ysig elynol faes y gelanedd.

Mynnem roddi am unwaith,  
 Olwg o'u rhyfelawg waith :—  
 Dwy fyddin mewn gwrtihdrin draw,  
 Yn y gad yn ymgysiarw ;  
 Blaenoraid tanbaid eu tôm,  
 I'w gosawd mewn trefn gysón,  
 Molawd a roent i'w milwyr,  
 I frydio 'u gwaed—fradaawg wyr ;  
 A rhoi 'u dig nwydau ar dân,  
 Fal i yfed cyflafan.  
 Y blaengadau blin gydiant  
 Yn chwercwon iawn, dechreu wnaant.

Cydreddeg wna y cadrodau—ereill,  
 Yn gyforiawg rengau ;  
 Dyna 'u swn yn dynesu,  
 A thyrfiant eu certh artau,

Cry' sain yr udgorn, cras yw,  
 Uwch y wlad uchel ydyw :  
 Llais angen 'n arllwys ingoedd—  
 "Gwaed ! gwaed !" yw ei lais ar g'oedd.  
 Y meirch a glywant, adwaenant donau  
 Udgorn y rhyfel, a'i uchel awchian ;  
 Ymennyn weithian mae'u hanian hwythau ;  
 Heda 'u gweryriad hyd y gororau.  
 Llidia ffiriw anwar eu tanllyd ffroenau,  
 Yn ail i ffyrnid enynnol ffwrmau :  
 Cloddiant yn addig â'u cyrnic garnau,  
 Y maes a drychant, dyrchant dywarchau ;  
 Terfysag, a chlanciant arfau—wna 'u hanian,  
 Mal gwaew trydan rhwng mil o gatrodau.  
 Saethau a gwrthsaethau sydd—ar gerdded,  
 Hwynt heb eu gweled, ant heibio 'u gilydd,  
 Gan gyrechu gwanu trwy'r gwynt,  
 Dynion a gwympir danynt,  
 Yn dyrrau, fal y cydorwedd  
 Pabwyr neu wair, pawb 'r un wedd,  
 Wedi i'r bladur ddur ddarwain,  
 Yn ei rhwysg ei mis drwy rhaif'n.  
 O ! yr alaeth mawr welir !  
 Dyna waith ofnadwy 'n wir !  
 Archoll i fron erchyil fraw,  
 Drot galon draig i wylaw.  
 E lychwinir yr irwellt,  
 Cochliwia 'r gwyar y gwellt :  
 Gwyltio mae'r cadfeirch gwalltawg,  
 Waeth-waeth ant, rhuthrant y rhawg  
 I'r aer, dan groch weryru  
 Treiddiol lai: trwy y ddau lu ;  
 Carlamant, byrddiant mewn twrdd,  
 A'u llygaid erchyil agwrdd,

Yn eu bâr yn wrechion byw,  
 Fal marwod ufel meryw.  
 Crynhoi dan eu carnau dig,  
 Mae aelodau maledig ;  
 Malurion mil o arwyr  
 A fathrant, hwy wawdiant wîr :  
 Y gwaed dros eu hegwydydd  
 Yna red ya afon rydd.  
 Y bwa a'r saeth a wnaethant  
 Eu holl rwysg, a gorfiwys gânt ;  
 Awr y cledd o'r diwedd d'ai,  
 A hwn o'r wain ddihunai,  
 Fal mileinflaidd hwyrflaidd hyll,  
 Gyrrha'n newynog erchyll ;  
 Gan ei awydd egniol,  
 Ceisia fwyd i'w wancus fol.

Hwn a fu ringyll peanaf yr angau.  
 Y mwya'i lwyddiant ar faes ymladdau ;  
 O ! wele i lymion ddurlynnion lafnau,  
 Yn loew wydrog dan haul belydrau :  
 Hwy gyd-darawant, rhngant drwy'r rheb  
 A lluchio o'u dannedd wna lluchedenau  
 Torrant, trywanant trwy y tariannau,  
 A hyll y rhwygant yr holl lurugau.  
 Ha ! ni ddylenwir y cleddawl wyniau,  
 Efe wedyn a fwyty fywydau ;  
 Mynn waed dynol i'w clynol énau,  
 Fe yrr i ddinistr heddyw fyrdiynau.  
 O ! clywch alaethas, wylodus lefan  
 Ei glwyfedigion, fawrion niferau ;  
 Drwy'r awyr uchod, draw rhua'r ochau,  
 I'wrdd swnwes y graig a'r gruddiannan,  
 Fel mewn cyd-deimlad a'u dioddefiadau,  
 Yna weithian adseiniai hitbau.

O ! yr anobaith sy ar wynebau  
 Y rhai annedwydd mewn dirgryniadau \*  
 Gan syched desfiol, ysol eu loesau,  
 Gwyltiant a threngant mewn arudhr ing-  
 Gwaith anadl a gwythienau—a beidiod  
 Yna dibenodd eu henbyd boenau.

E giliai'r haul o'u golwg,  
 Ei rudd ef arwyddai wg.

Ni ddalai i ganwyll i ddylion—yn hw  
 I wneyd gwaith llefruddion ;  
 Ffodd hwnt, a diffoddi hon,  
 Tynnai'r gwawl tan argelion.

Deuai'r nos i deyrnasa,.  
 Ei mantell dywell a du  
 A daenai tros waith dynion,  
 Yn y gad fileinig hon.

Dallai'r trugarog d'wllwch—y ddeula  
 Ddaliai mewn llonyddwch ;  
 Llwyddai fel rhingyll heddwch  
 Er heddio trais a'r lladd trwch.

Haid o fwlturiaid taerion.  
 Uwch y tir yn groch eu tōn,  
 Ar gig y lladdedigion,  
 Neshant i wiedda 'r nos hon ;  
 A dynion hyfion yn haid  
 Fil taerasch na'r fwlturiaid,  
 Y nos yn wancus ânt,  
 Weis Belial, cyrff ysbelineant.  
 Hwy nis dawr gwynfannus dōn  
 Degau o ghwypedigion ;  
 Nid ystyriant do-sturi  
 Mwy na'r haid fwlturiaid—dim.

Un a'i grudd yn bradd, a'i bron  
 Ar dorri gan bryderon,  
 Trwy wyl anturiai allan,  
 Rhwng ofn maith a golbaith gwan :  
 Hi dro'i 'n ol adre' un waith,  
 Petruso—wylo eilwaith :  
 Yna llwyth ei hofn ai'n llai,  
 Yn wrolach yr elat.  
 Tua'r maes, y cadfaes certh  
 Ar redia, try y brydferth  
 Fenyw—yn hyf ei hwyneb,  
 Yno aeth heb ofni neb.  
 Elai, addfwyn wyleiddferch,  
 I'r maes hyll yng ngrym ei serch ;  
 Ie, 'n i serch, gwnai neshau  
 Dan ingawi aden angau ;  
 I ganol y farwolaeth  
 Ddeuai o swydd cledd a saeth.  
 Yno 'morol wnai Mari,  
 I weld oedd i hanwylyd hi  
 Yn y farwol dorf oerwedd,  
 Acw a las y fllynig gledd.  
 Boreu y gad, hagr-gad hon,  
 Cu rodiau y cariadon  
 Fraich yn mraich, a baich o boen  
 I'r ddau a barai ddihoen ;  
 Yna rhaff y serch ai'n rhydd,  
 Wylent ar yddiau 'u gilydd ;  
 I'w gilydd y ddwy galon  
 Ymdoddiad, rhedent 'rawr hon.  
 Ond swn corn, llefgorn y llu,  
 Drwy 'u henaid wnai drywanu ;  
 Khwygai i dreiddiol dyrfol don  
 I'w gwaelawd y ddwy galon.

E roi y dewr filwr da—'n drwm ei fryd,  
I ei anwylyd ei gusan ola'.

Loes i Mair, hi lesmeiriai,  
Ar ei lin yn farwol ai.  
Dybryd ar ol dadebru  
O Mair, daeth y tymor du  
I'r ddau gariad ymadaw,  
Gyda llef wrth yagwyd llaw :  
Haws mag adrodd pa fodd fu,  
O filwaith yw dyfalu.  
I'r gad 'roedd ei alwad ef,  
Ai yr odrist Fair adref.  
Mawredd rheswm ar ddrys, u  
Gan drallod y diwrnod du ;  
Dydd galar nad oedd gelu  
Hwnnw i Fair fel blwyddyn fu.  
Ar hŵyr y dydd mawr ei hyd,  
Hi ni welai 'i hanwylyd ;  
Ennyd ar ol ennyd ai,  
Gwyliodd, ond ef nis gwelai ;  
Ymgynnal dan ei halaeth,  
Ni allai'n hwy—allan aeth.  
Am feithion hirion oriau,  
Gwnai'r un flyddion hon barhau ;  
Ei phryder yn nyfnder nos,  
A'i thaerni drwy faith oernos,  
Ni leihaoedd, daliodd, do,  
A chalon drom i chwilio,  
Trwy anialfaes trueni,  
Fel hyn am ei Hedwyn hi.  
Gwelai'n lliw goleuni lloer,  
Gwanillyd belydrau Gwenlloer,  
Ddu ol y mawr ddialedd,  
Rhwygiadau clwryfan y cledd ;

Lle o gyrrif mewn pyllau gwaed,  
 Orweddyst yn eu rhaddwaed.  
 Clywai gwynion dyfniion, dig,  
 Adwyth y rhai clwyfedig  
 A drengent mewn dir ingau—ysgeler.  
 Rhai'n bloesg alw'u mamau—  
 Rhai eu gwlad, rhai eu tadau—wnaent sisial,  
 Ow! a llesg fwngial yn lloegfia angau.  
 Yma nid oedd mam neu dad,  
 Na chiwaer, na brawd, na chariad,  
 Na phriod yn dyfod i  
 Ystyried mewn tosturi.  
 Ysglyfus wydus adar,—a'u crochlais  
 Ysgrechlyd i'w gwatwar;  
 A dynol williaid anwar,  
 Allan fil yn llawn o far.  
 E ro'i Mair ar lawer min,  
 Yn ei loesau, feluswin;  
 Llaesodd, e ddofodd y dda  
 Angyles eu hing ola.  
 Ar ei gwaith yn rhoi y gwin,  
 Gu bwysferch, ar un glasfin,  
 Ow! Mair, hi glywai 'n y man,  
 Ei henw hi ei hunan,  
 O fethiantus wefus wan,  
 Yn deilliaw 'n sibrwd allan!  
 Mair fad sychai 'i llygad llaith,  
 I sylwi 'n graffus eilwaith;  
 Ar wyneb y truanwr,  
 A'r gwaed oddiar ruddiau'r gwz,  
 Pan sychai, adwaenai 'r dyn,  
 Hwn ydoedd ei mwyn Edwyn!  
 Galwodd, hi alwodd eilwaith,  
 O lef serch, wylodfus iaith—

" O ! f'Edwyn !—ai Edwyn wyd ?  
 F' Edwyn anwylaf ydwyd !  
 O ! Edwya, dy Fair ydwyf,  
 Clyw hyn ! dy Fair, Edwyn, wyl !  
 Dywed air wrth dy Fair fad,  
 Yn fy nghar, O ! fy nghariad !"  
 Edwyn oedd yn ymadael,  
 I Mair nad oedd gair i'w gael ;  
 Hi graffai, tybhai weld dár  
 Ei lygad yn ail agor,  
 A phelydriad cariad cu  
 Yno 'n anwyl enynnau :  
 Yn ingoedd dyfnion angau,  
 Tâs pur hwn eto'n parhan  
 Yn ei rym ; ond ei dreriad,  
 Farwol oedd ar ei Fair fad ;  
 Pflagliad fel cyniad canwyll,  
 A'i gwawr wrth ddifodd mewn gwyll.  
 Syrthiai Mair mewn llesmair llym,  
 Ar y ddae'r yn oer ddirym :  
 Trallod oedd ormod i'w ddal,  
 A faedda'i chalon feddal ;  
 Dyrchodd un farwol ddolef,  
 Hynod gri, ochenaid gref,  
 Trengodd, chedodd ar hyn  
 O'i hadwyth ar ol Edwyn.  
 Un fyddin gai drwm faeddiad,  
 Ysig iawn o faes y gad,  
 Hi a giliai 'n ddigalon,  
 Hwnt o fawr drwst y frwydr hon.  
 Yr un fuddugol, yn wrol wnal arwain  
 Ar ei lliwiedig fanerau llydais,  
 Arwydd gorfoedd a mawredd mirain,  
 Mewn uchel afiaeth a mynuch lefain;



NWYD Y MEIRCH.  
*Or cerfyn gan W. Goscombe John, R.A.*

"Gwylio mae'r cadfeirch gwalltawg,  
Waeth-waeth ant, rhuthrant y rhawg  
I'r aer, dan groch weryru  
Treiddiol lais trwy y ddau lu."

Mawl croch i'w Moloch milain—a steiniai,  
A llawesychai pan oedd llu yn ochain.

Haneswyr yr hen oesau—a dystiant  
Am doster eu brwydrau;  
Enwas arwyr, gweithwyr gau,  
Lanwant eu tudalemnau.

Gwlad yr Aifft, am glod yr oedd,  
Trwy foliant ei rhyfeloedd;  
Ei Pharoaid, deyrniaid dig,  
Oll oeddynt yn llu addig.  
Bu ereill yn ffraweill firon.  
A'u llywodraeth yn llawdrom,  
I ddal y byd dan dduloes,  
A ia'u'r Aifft am lawer oes.  
Assyria fu draws erwin,  
A mawr bla am dymor blin.

Amryw olynwyr i Nimrod,—yn draws,  
A dreisient awdurdod,  
A min cledd er mynnu clod—Belus,  
Semiramis, a Ninus, fu'n hynod.

Wedi hyn, codai hynod—enbydus  
Bedwar o twy<sup>s</sup>filod;  
Pedwar mwy 'u bâr ya bod—am rwygaw,  
Tynnu, a drylliaw y byd tan drallod.

Caldea yn gynta' gaid,  
Llew anian oedd ei llonnaid;  
A'r ail, fel arth yr olwg,  
Sef Persia, gwaetha' ei gwg:  
Y trydydd, Groeg, fu'n troedio,  
Arwa'i drych, fel Heward, dro  
Yn ola', d'ai i oleu dydd,  
Y du arwach bedwerydd;

Rhufain, a'i gallu rhyfedd,  
 Dig iawn, ac ofnadwy i gwedd.  
 Bwystfil hyll, un erchyll oedd,  
 O lawn nwyd, crealawn ydloedd ;  
 Dannedd beiyrn cedurn, certh,  
 Yn ei wgas safu hygerth ;  
 Dannedd i rwygo dynion,  
 Ai i'w raib y ddaear hon.  
 Rhifid ar ei ben rhyfedd  
 Ddeg o gyrn addig en gwedd ;  
 Cnoai a chorniai 'n dra chwyrn,  
 Yn ei rwysg torrai esgyrn  
 Y byd oll ; ac ni bu dyn  
 Wnai arbed godai i'w erbyn.

Dyna y bwystfil anwar—am oesoedd  
 Fu'n gormesu'r ddaear ;  
 A dwyn y byd yn eu bár,  
 I ofid a thrwm afar.

Nebuchodonosor fu rychor uchel  
 Ei ddawn i rifo myrddiynau i ryfel ;  
 Hwn ni adlewai y byd yn dawel,  
 Dodai bawb o dan awdurdod Babel ;  
 I'w ogomiant wag anel—cenhedloedd,  
 A theyrmasoedd a fathrsi 'n isel.  
 Cyrus, a Darius, wŷr croes a dewrion,  
 A rhyw lu hetyd o'u hagr olafion ;  
 Lledu galanas, llidiog elynion,  
 A gwae, a dinistr wnaent yn mysag dynion ;  
 Eu rheolaeth fu greulon—ar wledydd,  
 A thrwm oer dywydd, orthrymwyr duon.

Yna y Bwch godai i ben  
 Llidiog, flewog, aflarew :  
 Bwch Groeg, y bachog rwygydd,  
 Un o'i fath, ni fu, ni fydd ;

A chorniai â thri chernawd,  
 Rhoes hyd luch Hwrdd Persia dlawd.  
 Trystiodd y ddaear trosti,  
 Rhoddai waed i'w rhuddo hi ;  
 O flaen ei ddyfal wyneb  
 Ef yn wir, ni safai neb :  
 Yn y gad corniai gedynn,  
 Rhedai gwaed ar hyd ei gyrrn ;  
 Y byd crwn hwn, ef yn hawdd,  
 Yn ei wanc, a drafflyncau ;  
 Dyheu 'roedd am fyf arall,  
 Awyddu cael llyncu'r llall :  
 Ni bu son am neb is ser  
 Undyn fel Alecsander.

Ei olynwyr yn fileinion—  
 Hwy, fel geirwon ryfelgarwyr,  
 Fu'n ormeswyr, treiswyr trawsion,  
 Oesau mawrion, gas ymyrwyr,  
 Codi hirion gadau blinio,  
 Taenu gwaeon, tân, a gwewyr,  
 Difa dynion, amlhau gweddwon,  
 Dwyn yn gaethion Iwydion wladwyr.  
 Mwy rhyfedd fu grym Rhufain,  
 Ei harwyr hi gurai y rhai'n !  
 Romulus, yng ngrym ei lid,  
 Wnai ryfel a mawr ofid.

Chwech ereill chwai a chwergwón,—a hannent  
 O honi 'n dwyn coron ;  
 Ofnadwy fu niweddiōn  
 Eu rhwysg ar y ddaear hon.  
 Gwyr enwog y weriniaeth,  
 Fu er hyn wedyn yn waeth :  
 Eryr gludai y gwyr gau  
 Yn arwydd eu banerau ;

Gwir arwydd o'u hawydd hwy,  
 A'u llid aaniwalladwy.  
 Tros Ewrob, en traws eryr,  
 Ar wib aeth mewn amser byrr ;  
 Ag ewinedd cigweiniawl,  
 E dynnai hon dan ei hawl.  
 I dir Asia ai drosodd,  
 Hwn a'i dew aden a dodd ;  
 Ac i Afriq mewn cyffro,  
 Yn ei ddig, echedodd o.

Yn eu certh gynnen a'r Carthaginiaid,  
 Ymladdent, rhwygent, fal enbyd ddreigiaid ;  
 Codai creision cirwon flin flaenorionaid,  
 I gyd o'u bonedd, fawrion gadbeniaid ;  
 Enwi'r oll yma ni raid—a diles,  
 Agor ail hanes rhai fu'n greuleniaid.

Profid yn mysg y prifion,  
 Regulus frydus ei fron ;  
 A Scipio eto fu'n atal—rhwysgwaith,  
 Curai i anobaith y cawr Hannibal.

Sylla, a Marius, eilwaith,  
 Yn y byd wnaent waedlyd waith.  
 Pompey chwai pwyl wympach oedd ?  
 Mawr ei fawl am ryfleoedd.  
 Y mwyaf oll am ei far  
 Afiaichusol, fu Chaisar ;  
 Hwn i'w nwyd greslon ei nerth,  
 A dybiai gael gwneyd aberth  
 O'r byd oll, heb arbed un—wladwriaeth,  
 Ei llwyr alaeth ar allor ei eilun.  
 Ymladdoddi, frad ofnadwy,  
 Hanner cant, meddant, a mwy,  
 O gadau tost ; a'i fost tu,  
 A'i fyddin iddo faeddu

Pob gelyn—gwnai pawb gilio  
 Rhag gwg ei ddu olwg o :

Ei lid trwy'r ddaear lydan,  
 A gerddodd, maeddodd bob man.  
 Hwn yn flaenaf gyntaf gŵr,  
 Drafaelai 'n gadryfelwr  
 I Frydain, i'w hafrada,  
 Gyda'i arfog lidiog lu ;  
 A dwyn henwlad ein tadau  
 Wnai'n gaeth dan Rufeinig iau.  
 Un didosturi—do, diystyrrodd  
 Haeddiannau dynol, hedd ni adwaenodd ;  
 I drist angen y darostyngodd  
 Wledydd lawer o nifer, anafoedd ;  
 I dylodi dyludodd—fyrdiynau,  
 A dirif fywydau o'n daear fedodd.

Ar ei ol ef, ymerawdwyr lu—godent,  
 I gadarn lywyddu ;  
 A rhyw filain ryfels,  
 Am hir faith dymhor a fu.

Y Scythiaid, a'r Parthiaid pell,  
 Saraceniaid yn haid hyll,  
 A'r Tyrciaid diriaid eu dull,  
 Fu ryfelgar, anwar oll.

Ond eilwaith, mwy fu duloes  
 A grym Rhyfeloedd y Groes,  
 O blaid offeiriad gan ffydd,  
 A hagr ofer goelgreydd :  
 Mynach dig, dieflig ei dôn,  
 A danieli nwydan dynion ;  
 Ewrob, yn swn ei araeth,  
 Oll i gyd, gorffwyllog aeth.

- I Asia aent, wallgof seintiau—'n orwyllit,  
 Aneiri' fyrdiynau ;  
 Fal addig egron fleiddiau—creulonwedd,  
 Nwydau celanedd lond eu calonau.
- Enw Iesu wanasant—a'u seintiau  
 'T groes santaidd gablasant,  
 Pan yn gas yr honasant—wneyd anrhaith  
 Hyll y rhyfelwaith oll er ei foliant.
- A'i dwyll, y pab a'u dallai—  
 Addaw nef i'w fleiddian wnae,  
 O dygent, lu melldigaid—Ganan dir  
 O ddwyliaw enwir yr anflyddloniaid.
- I lwyddaw rhyfel addig—rhoi dyfais  
 Ryw dafod nodedig ;  
 Iaith a dawn i draethu dig,  
 Yn ei enau gwenwynig.
- Pylor i luchio pelau—o folianu  
 Ufelawg gyflegrau :  
 Ar ddynion yn fyrdiynau—gyrr y tan  
 Ei ddur allan i'w gwneyd yn ddryllau.
- Oer ryngiad gwddf yr angau,—shu anwar  
 Brenin dychryniadau ;  
 A bwria hwn i barhau,  
 Fawr lwythog farwolaethan.
- O ! 'r wedd anaele ni ar ddynoliaeth,  
 I ddiofrydu ei hun i ddifrodaeth !  
 Rhoi 'i holl synwyr ar hyll wasanaeth  
 Ei mawr elyn, sef angel marwolaeth.  
 O ! wele ! dygai i'w alwedigaeth  
 Erwin niweidiol rym ei dirnadaeth,  
 I gresa trueni, gweli, ac alaeth,  
 Iddi ei hunan yn ddiwahaniaeth ;

Hi ddodai gelfyddyaeth—i lunio  
Ei harfan i lwyddo rhyfelyddiaeth.

Nid dieuog fuost ti, O Awen !  
Weithiau o ganu i chwythu y gynnen ;  
Ei fawr nyddais i ryfel anaddien,  
A rhedai yn ebrwydd ei fri dan wybren.  
Llawer 'rol Homer, fardd hen—fu'n canu,  
Yn wir, gan fagu dialgar genfigen.

Amryw ddynion mawr o ddoniau,—oedd ynt  
Drwy'r diweddar oesau,  
A'u bryd ar ennyн bradau—rhyfeloedd,  
A hynny ydoedd yn tanio 'u nwydan.

Napoleon, eon wr,  
Hwnnw fu'r pennaf arwr :  
I ryfel, prif angel oedd,  
A rhwngwr mwya'r oesoedd.  
Lloriodd holl allu Ewrawb,  
Mynnai warrau pennau pawb ;  
Dymchwelodd, lluchiodd i'r llaid,  
A dynodd ei holl deyrniain.  
A garw fraw ger ei fron,  
Crynnent fel deiliach crinion :  
Torri i lawr yn Waterlw,  
Oedd hanes diwedd hwnnw.

Ninnan sydd yn y deyrnas hon—ar ol  
Yr helynt echryslion,  
Ar lethu dan orlwythion—trwm echrys,  
Dyledion erys i dloidi 'n hwyrion.

O ryfel ! angel ingoedd,  
Dy fyw lid, difaol oedd ;  
Pob melldith yn dryblith drom,  
Ddig ornest, ddygi arnom.

Un anhosturiol, Ha ! ni ystyrri  
 Boenau trueniaid ban y'u trywenni ;  
 Dagrau heilition y gweddwon a'u gweiddi,  
 Yn dremwgus, tydi a'u dirmygu :  
 Amddifaid gwirion, taerion, watweri,  
 Y rhai anwyl, gwnait ladd eu rhieni :  
 A'th hyddewr galon ni thawdd er gweli  
 Poenau henaint dan es penwyni.  
 Pwyi fabanod—ai rhagod, rhwygi  
 Y beichiogion, a'u loesson ni lysi ;  
 Trwy anian hau trueni—wnai 'mhob modd,  
 A garw yw adrodd dy ddig wrhydri.

Dy hyfrydwch erioed yw difrodi  
 Bywydau dynol, gwae'r byd o d'ensi,  
 Wyd dad i'ofid, ei waed o hyd yñ,  
 A tho'i ei wledydd a wnei a thylodî ;  
 Dinasoedd yn dán ysi,—teuluoedd  
 Wnae heb aneddoedd na neb f'w noddi.  
 Dygi y newyn wedyn a nodau,  
 Hynt annedwydd pob haint a niweidau ;  
 A thaeni wewyr a phoethion waeau,  
 A chas anadl dy afiachus enau ;  
 Gan agor y llifddorau—a dwyn dig  
 Yn ddilnw addig o ddialeddau.

## III.

Adfywia, cyfod t'awen,  
 Dwyre'nawr hyd awyr nen ;  
 Ymeneinia'm mun anwyl,  
 Yna rho'th delyn ar hwyl.  
 Gwlych dy ddestlus wefus wan  
 Yn hen wlyboedd gwin Liban :



CURD A' CHLEDDYFAU'N SYCHAU,  
"Fe'i cura nes a yn swch, gywrain ei gwasanaethgarwch."

Yf o ddwfr arafaidd iach  
 Siloa, nid oes loewach :  
 Yfa, anghofia oñd  
 Rhyfeloedd, lluoedd, a'u llid ;  
 Gwybydd 'r a'r gaea' heibiaw,  
 Haf tawel, gan ddychwel ddaw.  
 Ha ! ha ! daw, daw o'r diwedd,  
 Anwyl haf efengyl hedd.

Hoff ydoedd gan broffwydi'—yn eu dydd,  
 O fryn Duw drwy'r llenni,  
 Weld gwawrddydd ei hafddydd hi,  
 O'r dwyrain draw ar dorri.

Y dydd a ganfu Dafydd yn gyfod,  
 Yn derfyn camwedd, i drefnu cymod ;  
 I Dduw o'i ras ail greu 'r ddaear isod,  
 A'i heddychu gyda'r nefoedd uchod ;  
 I gu adfer y byd oll i gyfod,  
 Ac i'w rwymo dan gyfeillgar amod :  
 I dynnu beichiau duon ei bechyd  
 Oddi arno, a dryllio ieuau ei drallod :  
 Awen Dafydd yn fwyn iawn ei deiod,  
 Yn gu o'i holl ingder gai olynygdod ;  
 Ei ion a difyr delyn a'i dafod,  
 A hwylus seinient yn felus hynod ;  
 Gan arddatgan glân glod—y dydd bo i waith,  
 Rhyfeloedd hiriaith, ymraael ddarfod.

Ei gân ei i Selef sydd,  
 Na welir un o'i heilydd :  
 Cân yw hon ar y pwnc hed',  
 Iesu hael yw ei sylwedd ;  
 Teyrnasiad tirion Iesu,  
 Yma gawn yn y salm gu,  
 'N dwyn cysur pur i bob pau,

A mwyn hedd o'r mynyddau ;  
 Rhyfedd gyflawnder hefyd  
 O'r bryniau, hwythau, o hyd ;  
 A gwylt o fendith yn fan  
 A ollwng y nen allan.  
 Dynion pob gwlad a dinas,  
 Ar lwydd fel y ddacar las ;  
 Tyfant, blodeuant hefyd,  
 Ffrwythant, amlhant o hyd.  
 Ei radau, fwyn Waredydd,  
 O fôr i fôr, yn fawr fydd.

Gweryd y truan gŵirion—o'i rwymau,  
 Tyrr ymaith y crealon :  
 Tery Iesu y trawsion,  
 A rhydd fraw trwy eu gwrdd bron.

Llywodraeth teyrniaid llawdrom,  
 Pob iau bleth a'r dreth fawr drom  
 Ddiddyma, ddiles 'n lân,  
 Na ellir o hyn allan,  
 I oslaw nag ail osod  
 Un o rhai'n o dan y rhod.  
 Ei enw 'n fawr iawn a fydd,  
 Rhed ei glod 'r hyd y gwledydd ;  
 Ei glod fydd yn dreigladwy  
 Oesau fyredd, ac erys fwy :  
 Ys erys tra fo seren,  
 A hanil yn wir ar ael nen :  
 Yna hedd fydd mewna mwynhâd  
 Tra y dyrch llewyrch Heniad,  
 Ar y byl, a thra y b'o  
 Hon ar hyd nen yn rhodio.

Canai Esaias gynnes ei awen,  
 Oroian heddwch, a'i rinian addien :

O gyff lese, wele y wiaLEN,  
 Un iraidd delaïd yn werdd ei deilen :  
 O wreiddyn Dafydd y llywydd llawen,  
 A ddaw i wir arwedd hedd i'r ddaearEN :  
 A gwelai yma y nefol goLOmen,  
 Arno'n 'hedeg a'i thirion wen aden ;  
 Yn dragwywydd bydd yn ben—a phob pau,  
 A ddaw yn flodau heirddion fel Eden.

Cu anadla ar y cenhedloedd,  
 A hwy a wnan' yfed anian y neloedd ;  
 'R anwir lewyga, trenga trwy ingoedd,  
 Yn sawyr anadl iachus ei rinoedd :  
 Tirion esyd ei farn rhwng teyrnasoedd,  
 Tery falais, distawa ryfelocedd :  
 A holl gleddyfau, tariannau trinoedd,  
 A yrrant, torrant yn eirf trin tiroedd :  
 A deiliad pob ardaloedd—gant heddwch,  
 A llonyddwch drwy 'a holl aned-oedd.

Y llew anwar ddiaw 'n llonydd,  
 Gwair a bawr, a gwâr y hydd :  
 Tan yr iau cyd-dynnu a'r ych,  
 Wna o'i foddi, yn ufuDDwyCH :  
 Bachgen bychan egwan a  
 Ar ei fwng, a chrafanga ;  
 A llyfa y llew nfydd  
 Ei law fach, heddychol fydd.  
 Yr arth a'r fuswch heb guwchiaw,  
 Orweddant drwyn wrth drwyn draw  
 Ar y ddol, a phawr y ddywy  
 Irweli, heb angen aerwy ;  
 Llydnod y ddwy hwy a ant  
 Hyd y bryncyn, cydbranciant :  
 Yn blaidd dig yn ddiddig ddaw  
 Yn dra hygar i drignw,

Efo'r oen, heb chwerg fryd,  
 Rhyfedd y chwery hetyd.  
 A'r llewpard brych ei wrychyn  
 Ar y maes, a chwery a'r myn :  
 Ar dwil yr asb, er ei dig,  
 A'i hen anian wenwynig,  
 Bachgen hon y fron heb frad  
 A chwery heb och irad :  
 A chwery un bach arall,  
 Yn ddiifraw ger llaw y llall,  
 Efo'i law'n ddiofaol iawn,  
 Ar wâl y wiber greulawn ;  
 Hon o'i flaau estyn ei phen,  
 Ni fratha'r wiber frithwen  
 Y bach, ei groesawn bydd,  
 Ar ei lin yn bur lonydd.

Daw adgas drigias dreigiau,—dir anial  
 Dan driniaeth, dwg firwythau :  
 Wele hwn ar ol ei hau,  
 Dry wedyn yn dir ydan.

Todda'r mynyddau, bryniau wybrennol  
 Wneir yn wastad-dir, frodir hyfrydol :  
 I'w pwyst e lenwir pantau olynol,  
 Hefyd unionir yr hollfyd anianol :  
 Y byd wrregysir, dygir yn gymdogol,  
 Heb ball hefyd, genhedloedd pellatol :  
 Ac wele dygir goleu diwygiol  
 Trwy rym arfeddyd celfyddyd fuddiol ;  
 E gerdd yr agerdd rwygo!—trwy bob man,  
 Daw'n didian allan fyd newydd holol.

Hen ddreigiau mwy ni ddrygant,  
 Tuoddu 'n wir at heddl wnant :  
 E dawdd nerth annedwydd nod,  
 Hyll falais y gwyllfilod.

Mewn llwydd ar fynydd dedwydd y Dawdod,  
 Hynaws eu helfen gwnant en preswylfod ;  
 Ni ddaw du ragfarn mwy i'w hedd drigofod,  
 Na llaw camwedd i fallu en cymod :  
 Enw glân yr Ion a'i glod—ddyrchesir,  
 A'i fawl a seinir yn felns hymod.

Gwawr deg y waredigeth,  
 Yn nwyrain net torri wnaeth :  
 Y'nghywlawnder amser Ion,  
 Ei ddiâdwyl addewidion,  
 Cyflawnawydd, gwiriwyd heb goll,  
 Eu dygid i ben digoll.  
 Yn ol y broffwydoliaeth,  
 Mab Daw'n ddyn y'mhob dawn ddaeth ;  
 I'n dwyn ni a Duw yn ol,  
 I gu heddwch tragwyddol.

I ddwyn yn un ddynion anwar,—difa  
 Pob dyfais ryfelgar ;  
 Newid tuedd plant daear—  
 Hedd i fydd trwy ladd ei ffar.

Oen Daw, pan y ganed ef,  
 Llawenodd yr hell wiwnef.

Llu y nefolion llawenaf wylent,  
 Yn niferoedd i Beth'lem cyfeirient,  
 Y bore i genid ; a hwy a bêr ganent,  
 I'w Hosanna'r wybrennau a seinient :  
 Banerau heddwch uwch ben a rodrent ;  
 Yn chwa yr awel fwyn y chwareuent :  
 Cerubiad Eden wen a ymunent,  
 Yn yr alaw gyda'u brodyr eilient ;  
 Eu llidiog gleddyf tanllyd a gladdent,  
 Oll yn y wain am byth, a llon wenent ;

Oddi ar helyg y nefoedd yr hwylwent  
 Eu hen delynau a'u tannau dylanwent :  
 Wyneb eu Duw adwaenent—a'i arddel,  
 Yn ei wael breseb, i'w ganmol brysient.

Uwch Beth'lem eu hanthem hwy,  
 Ga fod yn fyth gofiadwy :—  
 “ Gogeniant i Naf, trwy'r gornchafion,  
 Ceidwad a anwyd er codi dynion :  
 E gaed y Dyddiwr, Heddychwyr ddichon  
 Roddi i law anwyl ar Dduw a'i elynion :  
 O wele ! i ddaearolion—hedd a rhad,  
 O dyna gariad Daw dan ei goron.”

Cyhoeddai T'wysog heddwch,  
 I diodion llymion y llwch,  
 Ewyllys Duw er lles dyn,  
 A'i waredu, wir adyn ;  
 A dwyn y byd hwn o'i boen,  
 I gyrraedd hedd a gorhoen.  
 Un dydd ar y mynydd mad,  
 Agorai'r dwyfol gariad :  
 E ddifynnai'r ddeddf union,  
 A glân hedd o galon hon  
 A ffrydiodd, deilliodd allan,  
 Heb gynnwrf, heb dwrf, heb ddn ;  
 Na chur taranau a chorwynt,  
 Seiniau geid ar Sinai gynt :  
 Pan roid hon, ddeddf gyfionat,  
 Yno i ni o enau Naf.  
 Rhoi i lawr y rheol euraid  
 Bur i ni, ar Tabor wnaed ;  
 Dyled pob un i dalu,  
 Yn ffyddlon o galon gu :  
 I'w gilydd beunydd heb ball,  
 Y goreu i hwn ac arall :

Y naill un i wneyd i'r llall—y pethau  
 Olygai 'n oreu i gael gan arall.  
 Yn ei daith berffaith drwy'r byd,  
 Ei ddfineius hardd fywyd,  
 Fu 'n ol y rheol bur hon,  
 O'i ddaioni i ddynion.

Yn ei ing pan y trengodd,—am hedd a  
 Maddeuant y llefodd ;  
 Dig y ne', efe o'i fodd,  
 Yn ei weddi anhuddodd.

Ac ef wed'yn pan cyfododd,—yn fyw  
 O'i fodd, ail gyhoeddodd  
 Hedd i fydd yn rhydd o'i fodd,—heb wrtheb,  
 A'i anwyl wynab yn hael a wenodd.

A chyn iddo esgyn i  
 Lawenydd gwlad goleuni,  
 Ordeiniodd wyr, doniodd o  
 Ei weision heb betruso,  
 Yn genhadan i han hedd,  
 I fynwes byd cyfannedd ;  
 Ac fel hyn y teg Flaenawr,  
 Ai adres i nef yn awr ;  
 I ciriol tros farwol fydd,  
 Hyd foreu y ca'i adferyd,  
 O'i dra anial druensi,  
 I uchel faint heddychol fri.  
 Wedi mawrion dymhorau  
 O ddu gur rhyfeloedd gau ;  
 I'r maes aeth gwir rymus wyr,  
 Yn finiog ysgrifennwyr,  
 Ar ryfel, i'w arafu,  
 A'i wrthod ef a'i warth du.

Hoff enw, Wicliff uniawn ;  
 Erasmus, ddestiws ei ddawn,  
 Yn eu dydd, hynod oeddynt,  
 Sai eu gwaith o'r oesau gynt ;  
 Dau enw a gydunir,  
 Ar lechres hanes yn hir.

Cawri enwog fu'r Crynwyr,—hwy oeddynt  
 I heddwch yn bleidwyr ;  
 Ni roent chwaith, ddiweniaith wyr,  
 Air o fawl i ryfelwyr.

Dalai 'r Morfaiaid eilwaith,  
 Fel un rhag rhyfel a'i waith ;  
 A dwyn y byd trymllyd trwch,  
 Dan nodded aden heddwch,  
 E dery pleidiau ereill  
 Yn awr eu llaw 'n help i'r lleill ;  
 Ac i fyny 'n gyfunwedd  
 E fyn y rhai 'n faner hedd.  
 Iesu cu, Tywysog hedd,  
 Diarswyd gwyd i'w orsedd ;  
 Ei farch gwyn a fercyng ei,  
 A heddwch o bob haddef  
 A daena, rhed dawn ei ras,  
 Herddir y byd a'i urddas ;  
 Ac o'i olwg y cilia  
 Yr un coch, ac i dranc a.

Yn ol siriol arwyddion 'r amseras,  
 Ni a allwn ddeall nad pell yn ddiau  
 Ydyw y dydd y derfydd ei dyrifau,  
 A sychir creulon olion ei ddialau :  
 Mae y doeth ddewisol gymdeithasau  
 Yn ffirwyo 'i afian ffroen a'i welfau :  
 At genedloedd y bobloedd mae Beiblaus  
 Acw 'n 'hedeg, a hwythau 'r cenhadau :

Ellylon giliant, fioant i'w ffauau,  
 A chywilyddir twyll a chelwyddau.  
 Cymdeithas Heddwch i gwyliwch ei golau,  
 O! chwi herodron a gerwch wrhydraf,  
 I ffwrdd, O! rhedwch, o ffordd ei rhodau,  
 Brysiwch i neu, wyrwch dan ei banerau:  
 Addysg ei chynhadleddau—'mhen gronyn,  
 A dry yn derfyn ar driniad arfau.  
 Dyna's gvroniaid â dawngar riniau;  
 Yn traethu nerthol ethol ddarllithiau;  
 Elihu Burrit â'i hylaw beiriau  
 Saetha wrechion o'i ei ion a'i enau;  
 Gwreichion oleuant, lanwant galonau,  
 A gwir wres teimlad o gariad gorau;  
 Efo'r antur mae Cobden fawr yntau,  
 Gyda ei enwog foesol gadwynsau;  
 Daw Bright a Barnet, barota 'u barnau,  
 A Harri Rhisiart, 'n arwyr i'w rhesau:  
 Ac o'r Cyfandir adwaenir doniau  
 Yn seinio wed'yn yr un syniadau:  
 Wele o hyd amlhau—mae heb luddiant,  
 Y llu ymunant dan ei llumanau.

Daw rhianod â rhinwedd  
 Eu dawn hoff, i daenu bedd;  
 Mwy ni fydd menyw a fawl,  
 Neu a gâr filwr grawl;  
 Y wisg goch a yn ga- gan  
 Enaid holl ferched an'an.

A'r Arddangoriad, ymweliad miloedd,  
 Eleni noddid i'n tawel aneddoedd,  
 Sy'n sail i'r hyder y daw amseroedd;  
 Diwedd ar filain dywydd rhyfeioedd;  
 Sain y gynhadliad swynai genedloedd,  
 O bob parthau, llwythan'r holl ieithoedd,

Yn sywiog lawn dyfiauedd,—a ddaethant,  
Heb wrthiuddiant i'n mawrion borthiaddoedd.

Un brad yn dodwy 'n eu bryd nid ydoedd,  
Neu yn eu dwylaw eirl trin dialoedd ;  
Yma hynawision caent bawb â'u mynwesoedd  
I'w croesawi a'u gweini â gwinoedd ;  
Y' mhalas hyfryd y celfyddydedd,  
Yn heirdd a llawen y cwrdfiai y lluoedd :  
Yno heb lid y bobl oedd—yn gymysg,  
A hwy gaent addysg yn ei gynteddoedd.

Wedi gweled a byw gyda'u gilydd  
Dro yn awyr y Palas Gwydr newydd,  
Hwy oll a unid er eu llawenydd,  
Yn llawn a didwyll gyfeillion dedwydd,  
Heibio rhodient at un o'i barwydydd,  
I syllu 'n llawen ar lea arlunydd,  
A roi wych eilun yn gynhrychiolydd,  
Ardeb da wyneb hedd a dywenydd ;  
Yfed ei ysbryd ufydd—eu gwelid,  
Hwy yno lenwid o'i anian lonydd.

Dysgai y byd dasg heb wg,  
Yn y palas gwypmp olwg ;  
Ffoledd rhyfel a welai,  
A'i dda nwyd ffieciddio wnai ;  
Gwir olwg gai ar waeledd,  
Gwarth hwn a rhagoriaeth hedd.

Y Wasg hithau wisg weithion—ei nerth,  
A gwna wyrthian mawrion ;  
Hi ryda'r egr gyflegron,  
A rhydd daw ar eu gwrdd dôn.

Rhodder i hon ei rhyddid,  
Hi a ladd ryfel a'i lid ;

Y fagnel a'i chryf egni,  
O'i sedd hell ddiswyddâ hi.

Daw'r awen o'i dîrywiad,  
Cana'i mel acennan mad ;  
Heddwch a chariad haeddawt,  
O hyd mwy fydd nod ei mawl.  
Neshaed yr holl deyrnas hon,  
Ie, Ewrob, yr awrhon ;  
I gael trem a gweled drych,  
Ewybs wawr, bore eurwych,  
A ddwed ei bod yn dyddhau  
Ar fydd y cynhyrriadau :  
Heddwy mae Arualydd Mon,  
Yn arwedd ein llenorion ;  
I'n hyglod Eisteddfod hon  
Y daw'r diarswyd wron ;

Etyb i'w glod heb ei gledd,—mwyn heb lld,  
Myn bleidio tangnafedd ;  
A daw y'nglod angel hedd—i noddi  
A choroni heddwch a rhawedd.

A llaw'r gât fu 'n llywio'r gad  
Yn nydd ei ogoneddiad,  
Oberwya fab yr awen,  
Y bardd a fernir yn ben ;  
A difyr ddyd i fardd hedd  
Wyrdd lawryf urddol irwedd.

Fe ddygir i'r gof ddigon—o orchwyl,  
Erchir ei forthwylion,  
Er rhwydd ddarparo'r awr hon,  
Eisif ar waith maith amaethon.

Cludir cadarfau cledion—i'w efail,  
Afrifed bentyrion ;

Profant eu haeddiant yn hon,  
Dan driniaeth dyn du'r einion.

Chwythu'i dân, dan chwibanu  
Ei fyw dôn, wna y gof du ;  
Un llaw feginia, a'r llall  
Ffuria'r glo fel arail :  
Wedi trefnu taclu'r tân,  
Ar bwyt allor ei bentan,  
Yn hyf mewn hen gleddyf glas,  
Luniai lawer galanas,  
Gafaela y gof eilwaith,  
Chwery âg ei cyn dechren 'r gwaith  
Rhed ei fawd ar hyd ei fin,  
Dewrffodd i brosi'r durfin ;  
Ffugia'r gwâr yn filwr fod,  
Nen yn hen gadben hynod :  
Areithia, bygythia'n gas  
I'w elynion alanas ;  
Yna try, tery e'n y tân,  
A chwyth yn gryfach weithian ;  
A gwreichion fflamgochion gant  
Drwy dorchau mwg draw dyrchant ;  
E dynn allan o dân dig  
Ei fiwrs, dan ffrio'n flynnig,  
Yr hen gledd mawr iawn ei glod,  
Yn y maes mewn ymosod ;  
A dwg ei yr adeg hon  
Yn wynias ar ei einion :  
Ac mewn hwyl â'r morthwyl mawr,  
Esgud, a nerth grymusgawr,  
Fe'i cura nes a yn swch,  
Gywrain ei gwas'naethgarwch,  
I aru 'r ddaear iraidd,  
A thy' o hon wenith a haidd !

Hen dduw rhyfel a ddiarddelir,  
 Hwnnw, ddu eilun, mwy ni addolir :  
 Temlau i'g ogoniant gau a geuir,  
 Allorau i'f fawredd i'r llawr a fwrir ;  
 A gwaed had dynol i gendod enwir  
 Ei drachwant yn borthiant ni aberthir :  
 Ei enw a'i nwydau a'i anian wedir,  
 Mawl a chan swynawlf Moloch ni seinir.  
 Heddwch ! wi, heddwch ! cyn hir—o'r diwedd  
 A gwir rinwedd drwy'r byd a goronir.

Ei faner esyd ar fannau Rwsia,  
 Heb osni golwg cilwg Nicola :  
 Ei ddeiliaid caethion yn rhyddion rhodda,  
 A nerth y daerwylt hen arth a dorra :  
 Ei rasau barant wén ar Siberia ;  
 A rhoi cysur wna i Circassia :  
 Daw hwn a Pholand, diau ni flaelia,  
 I wiwrydd elfen o'i hir hir ddalia :  
 Ei wir addysg wareiddia—'r Cossaciaid,  
 Ie, a'r Sgythiaid a eres goetha.

Nwyd ormesol ddinistriol hen Awstria,  
 A'i lli'd hyddeciol tanlyd a ddofa ;  
 Rhed ei fendifithion dillwynion llawna,  
 Ynlli i'w mynwes, lleinw Allmaenia,  
 Ei hoen a gyrraedd i hen Hungaria,  
 Bro y gwrniaid a ewybr gorona :  
 Medi o'i ffrywyth a ga tylwyth Italia,  
 A'i fwyn lewych Rhufain a olenia :  
 Gweryd gaethion iselion Sisilia,  
 Fu'n hir dan waedlyd iau enbyd Bomba :  
 Cu esponir i Ffrainc a Hispania,  
 Ei anwyl addysg, a hi yno lwydda :

Trwy Dwrei lydan 'i anian a una  
 Y boblogaeth—iddo pawb a blyga :  
 Ei wersi drwy Athen, a'i ras a draetha,  
 A hen wlad Awen a ail flodeua :  
 Prydain o dan ei adain a neidia,  
 Diogel o olwg pob drwg hi driga :  
 Iwerddon druenus wallus a wella,  
 A hon o dan ei goron flagura :  
 Ei nawdd a goledd fynyddan Gwalia,  
 A'i hawen gynnes hi idilo gana !  
 Heddwch ! wi heddwch ! ha, ha !—mwyn hef  
 A hon yw'r hypynt seinia Ewropa ! [ynt :

Ei fwynder esyd gyfandir Asia  
 Yn wir baradwys, ei dir a brioda ;  
 O'i holl ardaloedd yn llwyr y deola  
 Bob achosion o greulon gweryla,  
 A thir Emanuel ail ymwela,  
 A hwnnw elwir yn ardal Beula :  
 Ei anian durturaidd leinw Dartaria ;  
 Arabia Ddedwydd yn ddedwydd ddoca,  
 China, 'r wlad nefol, a wir nefola,  
 Dan ei winwydden daw hon i anedda ;  
 Ac mwy ni chlywir ar randir India,  
 Swn ymrafaelion, son am ryfela :  
 Heddwch ! wi, heddwch ! ha, ha !—yr awr hon  
 A lleisiau ceinion holl Asia cana.

Ysbryd Affrig addig a ddyhudda,  
 Hen lawruddion hon a lareiddia :  
 Llwynwyr duon, elynion creulona,  
 Oedd megys llewod neu deigrod egra,  
 Anian nwydwylt y rhain a newidia,  
 Mor fwyn ddiniwaid a'r defaid dofa.

Ei ddawn a'i rad i bob gwlad glada,  
 Ar ei hynysedd hefyd teyrnasa ;  
 Heddwch ! wi, heddwch ! ha, ha !—fydd hyd  
 Yn effro acen dwg hen Afrika. [nen,

Dan ei gysgod, Amerig a driga,  
 Yn wâr ei hanian, diofai yr hunan ;  
 Trosti ei faner dyner a daena,  
 Ei aden addfwyn ry i Indiaid noddia :  
 Y drefn gaethwasaidd ffiaidd a flosa,  
 O bresenoldeb ei wyneb yna ;  
 A'r caethwas truan a lawen gana,  
 A'i holl ingoedd dros goi olynyga.  
 Ei loew afon drwy'r cyfandir lifa,  
 Ei ras dyr eiwaith dros dir Awstralia :  
 Heddwch ! wi, heddwch ! ha, ha !—o'r hen fyd,  
 A'r newydd hefyd o hyd cheda !

Ei fwyn lywodraeth ef a helaetha  
 Dros yr holl ioroccoed, a'u lluoedd llywia ;  
 Uwch y dyfnder, ei faner anfona,  
 A chysgod hon yn y donn dywynna :  
 E dderbydd dynion geirwon Algeria,  
 A'u hofer duedd i herw fordwy ;  
 A'r ta-mach gaeth, a aeth o dan eitha  
 GwARTH i'w hadwaen, pawb a'i gwrtthoda ;  
 Uwch yr eigion mwyach ni chroga,  
 I boen rhyw filoedd, baner rhyfela :  
 Heddwch ! wi, heddwch ! ha, ha !—yn un  
 O'r tir a'r moroedd hyd nefoedd nosia. [floedd  
 Heddwch ! wi, heddwch ! ha, ha !—eto'n ol,  
 I lon fyd swynol y nef adseinia !

Iesu mawr deyrnasa mwy,  
 Waredydd clodforadwy ;

Nofia 'r byd mewn hyfryd hedd,  
 Yn afon ei dangnafedd ;  
 Duw a dyn, yn rhwymyn rhad,  
 Ei ragorol fawr gariad  
 Wneir yn un drwy rin a nerth  
 Diball ei waedlyd aberth :  
 Wele, daw angel a dyn  
 I heddwch yn y Duwddyn !  
 Hen Iddewon yn ddiau,  
 Cenhedloedd, pobloedd pob pau,  
 Ufuddion iddo fyddant,  
 Oll yn ei hedd, llawenhânt ;  
 Ei dodda 'u hysbryd addig,  
 Ei waed Ei a ladd eu dig :  
 Nef a daear a'i carant ;  
 Iddo o hyd, ufuddhant.  
 Ar Ei orsedd eistedda,  
 A bri hon hyd byth barha ;  
 Rhyfel maith, a'i waith yn wir,  
 A'i ing hefyd, anghofir ;  
 Ni fydd drwy 'r byd ynfyd wr,  
 Mwy i'w weled yngwisiq milwr.  
 Yna hedd fydd mewn mwynhad,  
 Tra y dyrch llewyrch lleuad  
 Ar y byd, a thra y b'o  
 Hon ar hyd nen yn rhodio.

# CYFRES Y FIL.

Y mae y cyfrelau caslynol wedi eu cyhoeddi:

*Cyfrol 1901.*

DAFYDD AP GWILYM.

*Cyfrolau 1902.*

GORONWY OWEN. Cyf. I.  
GORONWY OWEN. Cyf. II.  
CHIRIOG.  
HUW MORUS.

*Cyfrolau 1903.*

BEIRDD Y BERWYN.  
AP VYCHAN.  
ISLWYN.

*Cyfrolau 1904.*

OWEN GRUFFYD.  
ROBERT OWEN.  
EDWARD MORUS.

*Cyfrolau 1905.*

JOHN THOMAS.  
GLAN Y GORS.  
GWILYM MARLES.  
ANN GRIFFITHS.

*Cyfrolau 1906.*

EBEN PARDD.  
SAMUEL ROBERTS (S.R.).  
DEWI WYN.

*Cyfrol 1907.*

JOSHUA THOMAS.

*Yn unigolyn.*

GEIRIADUR CYMRAEG.

*Cyfrolau 1908.*

IEUAN GLAN GEIRIONYDD  
FICER PRICHARD.

*Cyfrolau 1909.*

ALUN.  
TWM O'R NANT. Cyf. I.

*Cyfrolau 1910.*

TWM O'R NANT. Cyf. II.  
YR HWIAN GERDDI.

*Cyfrol 1911.*

GWILYM HIRAETHOG.

Ereill i ddilyn.

Pris 1/6 yr un : 1/12 i danyagrifwyr.  
I'w cael oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy.  
Anfoner enwau tanygrifluyr i O. M. Edwards, Llanrwchillyn, neu  
i R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy. Gellir cael yr ologyfrolau, neu  
ddechreu gyda'r gyfrol hon.

